STRATEGAETH IECHYD A LLES CEFFYLAU AR GYFER PRYDAIN FAWR

Cynnwys

Tudalen

RHAGAIR
CYFLWYNIAD
GWELEDIGAETH
NOD 1: ADOLYGU SAFONAU IECHYD A LLES
NOD 2: ADOLYGU'R TREFNIADAU AR GYFER GORUCHWYLIO IECHYD…
NOD 3: ADOLYGU'R TREFNIADAU AR GYFER ARSYLLU LLES CEFFYLAU
NOD 4: ADOLYGU DULLIAU ADNABOD CEFFYLAU
NOD 5: ADOLYGU ANGHENION AC ARGAELEDD MEDDYGINIAETHAU
NOD 6: ADOLYGU ADDYSG, SGILIAU A HYFFORDDIANT
NOD 7: ADOLYGU GOFYNION YMCHWIL
NOD 8: ADOLYGU CYFLAWNIAD A DATBLYGU PELLACH
ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH IECHYD A LLES CEFFYLAU
ATODIAD B: MENTRAU CYSYLLTIEDIG
ATODIAD C: YMGYNGHOREION

Cydnabyddiaethau.
Ffotograffau: Defra, Bwrdd Rasio Ceffylau Prydain, Y Noddfa Asynnod, Cyngor Cofrestru Milfeddygon, Clinig Milfeddygon Ceffylau Bell.

RHAGAIR

1. Mae iechyd a lles pob ceffyl a merlyn ym Mhrydain yn hanfodol, ond nid yn unig am fod dyletswydd arnom i ofalu amdanynt fel perchenogion, ceidwaid a defnyddwyr cyfrifol; mae hefyd yn hanfodol bwysig i ddyfodol a hyfywedd hirdymor diwydiant ceffylau Prydain.

2.Am filoedd o flynyddoedd, bu cysylltiad agos rhwng ceffylau a datblygiad cymdeithas ddynol. Ar ôl iddynt gael eu dofi gan bobloedd nomadig cynnar daethpwyd i ddibynnu ar geffylau ar gyfer ffermio, diwydiant a chludiant ymhell i mewn i'r 20fed Ganrif.

3.Ym Mhrydain heddiw defnyddir ceffylau yn bennaf ar gyfer chwaraeon a hamdden. Mae'r defnydd a wneir ohonynt, a'r ffordd y'u rheolir, yn penderfynu pa risgiau y maent yn agored iddynt. Mae hyn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar eu hiechyd a'u lles.

4.Mae safonau iechyd a lles uchel yn hanfodol i'r anifeiliaid eu hunain, ac maent hefyd yn hanfodol bwysig i lwyddiant pob busnes ceffylau. Mae buddsoddi yn iechyd a lles ceffylau nid yn unig yn lleihau costau yn y tymor hwy, ond mae hefyd yn gwella ansawdd bywyd yr anifeiliaid ac yn cynyddu mwynhad a diogelwch pawb sy'n ymwneud â hwy.

5.Mae pobl sy'n gofalu am geffylau yn prysur sylweddoli'r ymrwymiad, yr amser a'r gost sy'n gysylltiedig â hynny. Mae llawer, ond nid pawb, hefyd yn ymwybodol o'r lefel uchel o wybodaeth ac arbenigedd sydd ei hangen i ddiogelu iechyd a lles eu ceffylau – gall hyd yn oed berchenogion neu geidwaid gofalgar beri i anifeiliaid ddioddef trwy amryfusedd. Er y credir yn gyffredinol bod safonau iechyd a lles at ei gilydd yn uchel ym Mhrydain, mae'r dystiolaeth ymhell o fod yn gyflawn ac mae nifer o anifeiliaid yn dioddef creulondeb, camdriniaeth, esgeulustod a chamreolaeth bob blwyddyn.

6.Bu cynnydd sylweddol mewn perchenogaeth ceffylau ledled Prydain yn y ddau ddegawd diwethaf, ac, er na all y diddordeb cynyddol hwn ond gwneud lles i'r diwydiant ceffylau a'r gymdeithas yn gyffredinol, mae'n rhaid cydnabod efallai nad oes gan newydd-ddyfodiaid y wybodaeth briodol a bod hynny'n cynyddu'r risg y caiff ceffylau eu cam-drin. Ar ben hynny mae natur ryngwladol y diwydiant a'r ffaith bod newid yn yr hinsawdd yn arwain at risg gynyddol y bydd clefydau egsotig yn ymledu, y bydd rhai ohonynt yn peri bygythiadau difrifol i iechyd dynol yn ogystal ag iechyd ceffylau, yn golygu na all neb fforddio bod yn hunanfodlon.

7.Y Weledigaeth 10 mlynedd ar gyfer y Strategaeth hon yw sicrhau safonau iechyd a lles uchel ar gyfer ceffylau ym Mhrydain a sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am iechyd a lles ceffylau yn deall ac yn cyflawni eu dyletswydd gofal. Mae hyn yn cynnwys diffinio safonau; gwaith monitro ac asesu parhaus; a gwella safonau yn ôl yr angen. Ond nid oes gennym y ffeithiau mewn rhai meysydd, a cheir amrywiaeth barn weithiau o ran sut y dylid rheoli ceffylau a sut y dylid lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ceffylau.

8.Credir yn gryf, er mwyn i'r Strategaeth lwyddo, fod angen i bawb sy'n gysylltiedig â cheffylau fynd i'r afael â'r materion a nodir yn y ddogfen hon a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd bragmatig ac adeiladol i gyflawni'r nodau. Os na wneir hynny, bydd y Strategaeth yn methu a chollir cyfle go iawn.

9.Mae cyhoeddi'r Strategaeth yn gam pwysig, ond dim ond y man cychwyn ydyw; gwireddu ei Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw'r dasg fwy ymestynnol. Bwriedir i'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu sy'n ei hategu fod yn ddogfennau byw, a adolygir ac a ddiwygir yn rheolaidd i sicrhau bod y Strategaeth yn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol. Er mwyn gwneud hynny bydd angen ymrwymiad parhaus gan bawb dan sylw.

10.Fodd bynnag, mae'r ffaith i'r Strategaeth gael ei chynnig a'i datblygu gan gynrychiolwyr o bob rhan o'r sbectrwm ceffylau, gyda chefnogaeth lawn y Llywodraeth, yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

11.Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ddatblygu'r Strategaeth. Mae hyn yn cynnwys pawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth ddrafft. Mae eich amser, eich ymdrech, eich gwybodaeth fanwl am geffylau a'ch parch mawr atynt wedi arwain at Strategaeth gadarn yn seiliedig ar wybodaeth. Gyda'ch cefnogaeth barhaus, rydym yn siŵr y gall y Strategaeth wneud gwahaniaeth go iawn i geffylau ledled Prydain Fawr.

Llofnodwyd:
Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain
Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain
Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol
Defra
Gweithrediaeth yr Alban
Llywodraeth Cynulliad Cymru

CYFLWYNIAD

Diben y Strategaeth

1.Mae'r diwydiant ceffylau yn sylweddoli fwyfwy pa mor bwysig yw safonau iechyd a lles ceffylau uchel i'w lwyddiant a'i hyfywedd ariannol. Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer Prydain Fawr yn 2004, penderfynodd y diwydiant fod angen iddo gael Strategaeth Iechyd a Lles wedi'i hanelu yn benodol at geffylau. Sefydlwyd Gweithgor i ddatblygu'r fenter. Cynhwysai'r Grŵp, a arweinid gan Gymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain (BEVA), gynrychiolwyr o gyrff milfeddygol, cyrff lles a chyrff o'r diwydiant, a Llywodraeth ganolog a datganoledig. Ar ôl hynny bu Grŵp Gweithredu Lloegr, grŵp cynghori annibynnol a benodwyd gan y Llywodraeth i hwyluso'r broses o gyflwyno Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid yn Lloegr, yn hyrwyddo'r gwaith datblygu strategaethau ar gyfer isrywogaethau i ategu nodau'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid ehangach[1].

2.Cwblhawyd Strategaeth Iechyd a Lles Ceffylau ddrafft ar gyfer Prydain Fawr ym mis Awst 2005 ac fe'i hanfonwyd at dros 400 o unigolion a sefydliadau at ddibenion ymgynghori. Roedd pawb a ymatebodd o blaid datblygu'r Strategaeth, ei Gweledigaeth a'i nodau cyffredinol. Defnyddiwyd yr ymatebion gan y Gweithgor i ddatblygu a mireinio'r Strategaeth.

3.Mae'r Strategaeth yn cwmpasu ceffylau, merlod, asynnod, mulod a bastardiaid mulod. Fodd bynnag, at ddibenion y ddogfen hon, defnyddir 'ceffyl' fel term torfol.

Paratoi'r Strategaeth

4.Mae iechyd a lles ceffylau o'r pwys pennaf i iechyd, lles a thwf y diwydiant ceffylau yn y dyfodol ac mae'n hanfodol bwysig i bob un o wyth nod y Strategaeth ar gyfer y Diwydiant Ceffylau yng Nghymru a Lloegr[2]. Yn wir, sicrhau safonau iechyd a lles ceffylau uchel yw Pwynt Gweithredu cyffredin, cyntaf y ddogfen honno. Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles Ceffylau yn gam pwysig tuag at gyflawni'r amcan hwnnw. Mae'n rhaid i'r diwydiant ceffylau barhau i gydnabod bod ystyriaethau iechyd a lles da wrth wraidd pob agwedd ar ei weithgareddau a rhaid iddo sicrhau bod ystyriaethau iechyd a lles yn greiddiol i unrhyw hyfforddiant neu addysg yn y diwydiant.

5.Mae'r Strategaeth yn berthnasol i bob brîd, math a defnydd o geffyl. Fodd bynnag, mae'r defnydd a wneir o geffylau yn diffinio llawer o agweddau ar y gwaith o'u rheoli a llawer o'r risgiau y maent yn agored iddynt, ac felly mae'n dylanwadu ar eu statws iechyd a lles. Felly mae'r Strategaeth yn cydnabod bod y defnydd a wneir o geffylau yn benderfynydd sylfaenol a'i fod yn bwysig o ran nodi sut y dylid mynd i'r afael â materion iechyd a lles ar gyfer ceffylau penodol neu grwpiau penodol o geffylau. Mae'r Strategaeth yn annog pob un o'r disgyblaethau chwaraeon i ddatblygu eu dull eu hunain o adolygu a gwella unrhyw bryderon lles penodol fel y gwneir eisoes mewn rhai sectorau.

[1] http://www.defra.gov.uk/animalh/ahws/
[2] http://www.bhic.co.uk/downloads/full-strategy-report.pdf

Strwythur

6.Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth ar gyfer iechyd a lles ceffylau ym Mhrydain, a'r rhesymeg ategol. Pennwyd Wyth Nod i helpu i wireddu'r Weledigaeth a nodwyd materion iechyd a lles allweddol o dan y Nodau. Ategir pob Nod gan Gamau Gweithredu a fydd yn cyflawni'r Strategaeth. Rhestrir y Camau Gweithredu yn Atodiad A.

7.Mae gan bob Nod gorff Hyrwyddo a enwyd, sy'n gyfrifol am sicrhau y cyflawnir y Camau Gweithredu sy'n ategu'r Nod hwnnw. Ysgwyddodd Cydffederasiwn Ceffylau Prydain y cyfrifoldeb am gydlynu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth.

Gweithgor y Strategaeth

8.Cynhwysai'r Gweithgor a ddatblygodd y Strategaeth hon ac a neilltuodd gryn dipyn o amser ac adnoddau i'w chwblhau:

Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain:
Lesley Barwise Munro
Yr Athro Josh Slater
Yr Athro Alistair Barr
Dr James Wood

Y Diwydiant Ceffylau:

Cydffederasiwn Ceffylau Prydain (BEF)
Cymdeithas Masnach Farchogol Prydain (BETA)
Bwrdd Rasio Ceffylau Prydain (BHB)
Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain (BHIC)
Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS)
Ysbyty Brooke ar gyfer Anifeiliaid
Y Noddfa Asynnod
Bwrdd Ardoll Betio Rasio Ceffylau (HBLB)
Awdurdod Rheoleiddio Rasio Ceffylau (HRA)
Yr Ymddiriedolaeth Ceffylau (Y Cartref Gorffwys i Geffylau gynt)
Cynghrair Rhyngwladol Diogelu Ceffylau (ILPH)
Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol (NEWC)
Cymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA)
Broceriaid Yswiriant De Essex (SEIB)

Llywodraeth:
Alison Reeves, Mike Warnes a Tony Williamson (Defra)
Fiona Leadbitter (Cynulliad Cenedlaethol Cymru)
Mary Bradley (Gweithrediaeth yr Alban)
Lisa Jarvis (Lantra)

[page 5 - VISION]

GWELEDIGAETH

Trosolwg

9.Mae'r Strategaeth hon yn ceisio sicrhau safonau iechyd a lles uchel ar gyfer pob ceffyl ym Mhrydain, ni waeth beth fo ei frîd, ei fath neu'r defnydd y gwneir ohono. Mae hyn o'r pwys pennaf i'r ceffylau ac o ran y gwerth y mae ein cymdeithas yn ei roi arnynt. Mae iechyd a lles da ceffylau yn fater i bawb. Mae'n hanfodol bwysig i berchenogion a marchogion ceffylau, achos hebddo ni fydd eu hanifeiliaid yn perfformio hyd eithaf eu gallu ac efallai y peryglir diogelwch. Mae'n sicrhau'r nifer fawr o fanteision i iechyd a lles dynol sy'n deillio o gyfranogi mewn marchogyddiaeth. Mae'n diogelu rhag achosion o glefydau, y mae i rai ganlyniadau difrifol ar gyfer iechyd cyhoeddus, a chostau economaidd a chymdeithasol uchel. Mae o'r pwys pennaf i lwyddiant y diwydiant ceffylau. Mae'n ategu cyfraniad pwysig y diwydiant, nid yn unig i chwaraeon, hamdden a lles, ond hefyd i'r economi, cyflogaeth, datblygu cymunedol a gwledig, addysg a diogelu'r amgylchedd.

10.Y farn gyffredinol yw bod y mwyafrif o berchenogion a cheidwaid yn gofalu'n dda am eu ceffylau a bod ganddynt y wybodaeth briodol i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ymhell o fod yn gyflawn. Mae astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Gymdeithas Masnach Farchogol Prydain (BETA) yn nodi bod perchenogaeth ceffylau yn cynyddu. Mae hyn i'w groesawu a dylid ei hyrwyddo

ond, am efallai nad oes gan berchenogion newydd fawr ddim cefndir o ran gofalu am geffylau, efallai y gwelir cynnydd mewn camdriniaeth anfwriadol. Ar ben hynny, ceir achosion o glefydau heintus yn aml, mae clefydau eraill ac anafiadau yn effeithio'n barhaus ar y boblogaeth ceffylau, ceir dwsinau o bobl yn euog o greulondeb bob blwyddyn, ac mae miloedd o geffylau mewn canolfannau achub a noddfeydd. Am y rhesymau hyn, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae angen rheoli risgiau yn effeithiol, mae angen adolygu dulliau traddodiadol o ofalu am geffylau a'u gwella yn barhaol, ac mae angen darparu cyfleoedd addysgol i berchenogion a rheolwyr ceffylau mwy newydd a mwy profiadol fel ei gilydd.

11.Mae'r Strategaeth hon yn ystyried faint o gynnydd a wnaed gennym o ran cyflawni'r dyheadau yn y Weledigaeth. Mae'n nodi ein blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer gweithredu i'n symud yn agosach at y nod hwnnw, gan ystyried risgiau, costau a manteision. O fewn tair blynedd mae'n anelu at:

- Sefydlu llinell sylfaen gadarn ar gyfer asesu p'un a gyflawnwyd elfennau 1, 2 a 3 o'r Weledigaeth;
- Pennu targedau mesuradwy, â therfynau amser ar gyfer gwella ar y llinell sylfaen; a
- Nodi camau gweithredu pellach, yn ogystal â'r rhai yn y ddogfen hon, sydd eu hangen i gyrraedd y targedau a symud yn agosach at gyflawni elfennau 3 a 4.

Y Weledigaeth ar gyfer Iechyd a Lles Ceffylau
1. Mae pob ceffyl yn iach ac yn cael eu trin mewn ffordd trugarog.
2. Mae pawb sy'n gyfrifol am iechyd a lles ceffylau yn cyflawni eu dyletswydd gofal.

Er mwyn galluogi hyn:
3. Mae'n rhaid i berchenogion, ceidwaid, defnyddwyr a phobl eraill sy'n ymwneud ag iechyd a lles ceffylau ddeall eu cyfrifoldebau, gwybod sut i'w cyflawni a chymryd camau i wneud hynny.

4. Mae'n rhaid i bawb sy'n ymwneud â cheffylau, gan gynnwys y Llywodraeth, gyda'i gilydd sicrhau:

a. bod safonau iechyd a lles, a gwybodaeth arall sydd ei hangen i ategu dyletswydd gofal pob unigolyn, yn briodol, yn gyfoes ac yn hawdd eu deall.

b. yr eir i'r afael â risgiau clefydau heintus, gan gynnwys y rhai sy'n dod i mewn i Brydain o wledydd tramor ac y'u rheolir yn effeithiol.

c. y caiff statws iechyd a lles y boblogaeth ceffylau ei fonitro'n ddigon da.

ch. y nodir problemau iechyd a lles arwyddocaol ac yr eir i'r afael â hwy.

12.Mae'r Strategaeth yn cydategu mentrau eraill i wella iechyd a lles ceffylau (gweler Atodiad B a'r crynodeb isod).

Menter	**Mater**
Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006	• Dyletswydd Gofal • Iardiau hurio • Ysgolion marchogaeth • Clymu • Noddfeydd anifeiliaid • Anifeiliaid sy'n perfformio
Strategaeth ar gyfer y Diwydiant Ceffylau yng Nghymru a Lloegr	• Gwella sgiliau • Bridio • Mynediad marchogaeth oddi ar y ffordd • Addysg diogelwch ar gyfer modurwyr a marchogion • Rheoli tir • Pori er lles cadwraeth
Rheoliad Cyngor yr UE 1/2005 a Chyfarwyddebau 90/426 a 427	• Lles wrth gludo • Dull adnabod ceffylau parhaol

Cyfrifoldebau

13.Mae gan ***berchenogion a cheidwaid*** ddyletswydd foesegol a statudol i ofalu am y ceffylau y maent yn berchen arnynt ac y maent yn eu rheoli ac maent yn gyfrifol am iechyd a lles eu ceffylau. Mae gan y perchennog gyfrifoldeb parhaus am anifail, hyd yn oed pan fydd person arall yn gofalu amdano o ddydd i ddydd.

Cyfrifoldebau Iechyd a Lles Perchenogion a Cheidwaid

- Deall anghenion iechyd a lles penodol eu hanifeiliaid a darparu ar eu cyfer.
- Cadw anifeiliaid iach.
- Cymryd camau i atal a rheoli clefydau ac anafiadau.
- Meddu ar gynllun gofal iechyd milfeddygol ar gyfer pob ceffyl a glynu wrtho.
- Chwarae rhan o ran adnabod symptomau clefydau hysbysadwy a rhoi gwybod amdanynt.[3]
- Sicrhau safonau lles priodol trwy gydymffurfio â deddfwriaeth a chodau lles.
- Sicrhau bod eu sgiliau a'u lefelau cymhwysedd yn briodol i'r uchod.
- Ceisio cyngor milfeddygol a chyngor cymwys arall i helpu i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

14. Mae gan bob aelod arall o'r ***diwydiant ceffylau*** gyfrifoldeb hefyd i ddiogelu iechyd a lles. Mae hyn yn cynnwys pob marchog, hyfforddwr a chyflenwr nwyddau a gwasanaethau megis milfeddygon, marchfeddygon, cyfrwywyr, masnachwyr porthiant, perchenogion siopau harneisiau, cludwyr anifeiliaid byw, yswirwyr, addysgwyr, newyddiadurwyr ac aelodau o'r nifer fawr o gymdeithasau ceffylau ym Mhrydain.

Cyfrifoldebau Iechyd a Lles pob Aelod o'r Diwydiant Ceffylau

- Cefnogi perchenogion a cheidwaid i gyflawni eu dyletswydd gofal trwy ddarparu addysg a gwybodaeth briodol a chyngor manwl gywir, cyfredol a diduedd.
- Rhoi gwybod am bryderon ynghylch esgeulustod neu gamdriniaeth i'r sefydliad lles neu'r Awdurdod Lleol priodol.
- Rhoi gwybod am bryderon ynghylch unrhyw un o'r disgyblaethau cystadlu ceffylau i'r corff rheoleiddio perthnasol.

15. Mae ***milfeddygon*** yn gyfrifol am ddarparu gofal digonol ar gyfer ceffylau o dan eu gofal. Dylai hyn gynnwys, lle bynnag y bo modd, annog perchenogion ceffylau i gynllunio a gweithredu rhaglenni gofal iechyd ataliol. Dylai milfeddygon yn ymarferol gymryd rhan mewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus fel sy'n ofynnol gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon.

[3] Mae clefydau difrifol nas ceir fel arfer yn y wlad hon (clefydau 'egsotig') fel rheol yn 'hysbysadwy'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid hysbysu Defra ohonynt ac ymchwilio iddynt. Gweler gwefan Defra. Dylai perchenogion bob amser geisio cyngor milfeddygol os oes ganddynt amheuon. http://www.defra.gov.uk/animalh/diseases/default.htm.

16. Mae'r nifer fawr o ***elusennau lles ceffylau,*** gan gynnwys y trigain aelod o'r Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol (NEWC), yn cynrychioli'r cariad sydd gan ein gwlad at y ceffyl a'r ffaith drist bod anwybodaeth, camdriniaeth ac esgeulustod yn parhau. Mae llawer yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA), sy'n gweithredu fel y prif sefydliad erlyn yng Nghymru a Lloegr mewn achosion o esgeulustod a chamdriniaeth ddifrifol. Yn yr Alban cyflawnir y rôl hon gan Gymdeithas yr Alban er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (SSPCA). Ceir rhestr o aelodau NEWC yn (www.newc.co.uk/members).

Gwaith Elusennau Lles Ceffylau

Achub ac adsefydlu	Cymryd achosion lles, gan gynnwys achosion o greulondeb ac esgeulustod, a'u hadsefydlu a'u hailgartrefu mewn cartrefi benthyca detholedig, ond gyda'r ceffylau yn parhau'n eiddo i'r elusen am weddill eu bywydau.
Noddfa	Cymryd achosion lles a rhoddion, eu hadsefydlu a'u cadw'n ddiogel am weddill eu bywydau.
Cartref ymddeol	Cymryd a chadw nifer gyfyngedig o anifeiliaid sydd

	wedi cyrraedd diwedd eu bywyd gwaith oherwydd oedran neu anafiadau.
Ymchwil	Ymchwilio i faterion sy'n effeithio ar iechyd a lles ceffylau.
Addysg	Hyrwyddo safonau lles uchel trwy wella gwybodaeth a dealltwriaeth.
Ymgyrchu	Ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth o faterion lles a chyflawni gwelliannau.
Rhoi grantiau	Ariannu gweithgareddau ymchwil neu weithgareddau addysgol a fydd yn helpu i wella lles. Ariannu prosiectau penodol ar gyfer elusennau llai o faint, gan wella eu gallu i ddylanwadu ar iechyd a lles ceffylau yn gadarnhaol.

17. Mae sefydliadau lles mawr hefyd yn gweithio gydag arolygwyr ***Awdurdodau Lleol*** a hyfforddwyd yn briodol i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth lles ac y rhoddir y cyngor gorau posibl i berchenogion a cheidwaid ceffylau ar ofalu am eu hanifeiliaid. Mae arolygwyr Awdurdodau Lleol yn ymwneud â thrwyddedu ysgolion marchogaeth a mentrau eraill lle y defnyddir ceffylau, merlod ac asynnod am dâl neu wobr, ac, yn y dyfodol, iardiau hurio ceffylau a noddfeydd anifeiliaid, ac maent hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol i orfodi cyfreithiau sy'n ymwneud â chadw a chludo da byw fferm a masnachu ynddynt. Gallant hefyd ymdrin ag achosion o greulondeb neu esgeulustod, felly hefyd yr RSPCA neu SSPCA.

18. Mae ***Llywodraeth ganolog a datganoledig*** yn gweithio gyda'r diwydiant ceffylau i gyflawni amcanion cyffredin. Dylai ymyrryd yn iechyd a lles ceffylau pan fo angen er lles y cyhoedd, er enghraifft, trwy atal ac ymladd clefydau difrifol, er mwyn:

- Diogelu iechyd dynol;
- Diogelu a hyrwyddo lles anifeiliaid;
- Diogelu buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach;
- Sicrhau y gallwn symud anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid a masnachu ynddynt yn rhyngwladol; a
- Chynnal gwerth uchel y diwydiant ceffylau.

Grwpiau defnyddwyr a risgiau

19.Mae llawer o'r risgiau y mae ceffylau yn agored iddynt yn digwydd ni waeth beth fo'r brîd, y math neu'r defnydd a wneir o'r anifail. Fodd bynnag, mae'r defnydd a wneir o geffylau yn cyflwyno risgiau ychwanegol posibl, sy'n ymwneud yn benodol â'r gwahanol weithgareddau. Mae hefyd yn effeithio ar sut y dylid mynd i'r afael â phryderon, am fod lefelau gwybodaeth a chyfleoedd ar gyfer gorfodi yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol grwpiau defnyddwyr. Dangosir y grwpiau hyn a'r risgiau ychwanegol sylweddol posibl yn y tabl canlynol.

20.Mae angen sefydlu sail tystiolaeth lawer mwy cadarn ar statws iechyd a lles y boblogaeth ceffylau. Mae'r adrannau canlynol yn nodi Nodau a Chamau Gweithredu i weithio tuag at hyn, ac yn ymdrin â'r blaenoriaethau cyfredol ar gyfer gweithredu ar sail y dadansoddiad risg rhagarweiniol.

21.Er bod llawer o'r grwpiau defnyddwyr yn hunan-reoleiddio - gwaith a wneir gan eu cyrff llywodraethol (Gweler Nod 1) – ceir rhannau o'r diwydiant ceffylau nas rheoleiddir o hyd ac mae angen monitro ac ailasesu materion iechyd a lles yn gyson. Mae'r tabl isod yn nodi rhai o'r materion y mae'r Strategaeth hon yn anelu at ymdrin â hwy.

Grŵp Defnyddwyr	**Materion**
Cystadlu Dressage Gyrru Dygnwch Mabolgampau marchogol Pêl ceffylau Polo Polocrós Rasio Ffrwyno Sioeau Neidio Ceffylau Llofneidio	Mae natur ryngwladol y sector cystadlu a'r ffaith bod ceffylau yn teithio'n helaeth ledled y wlad yn cynyddu'r risg y caiff ceffylau eu hamlygu i glefydau heintus. Mae lleiafrif o berchenogion a hyfforddwyr sy'n defnyddio arferion amheus wrth hyfforddi anifeiliaid, er enghraifft gorsensiteiddio a gorblygu, neu ddefnyddio cyffuriau i guddio anafiadau neu i wella perfformiad. Ar ben hynny, mae risg y caiff rhai anifeiliaid eu hanafu o ganlyniad i orweithio. Mewn rhai disgyblaethau, mae pryderon penodol, er enghraifft gofal y tu allan i'r tymor ar gyfer rhai merlod polo, gordewdra mewn ceffylau sioe sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn datblygu cyflyrau megis llid llafnog, cyfraddau gorffen isel a sychu mewn rhai cystadlaethau dygnwch ac anafiadau yn gyffredinol. Mae cystadlaethau nas rheoleiddir yn achos pryder, yn arbennig pan ofynnir i geffylau berfformio ar wynebau amhriodol.
Hamdden Iardiau hurio ceffylau Cartref	Mae'r grŵp hwn yn cwmpasu anifeiliaid ar log ac anifeiliaid a gedwir gartref. Er bod perchenogion gwybodus ac iardiau hurio ceffylau medrus yn cynnal safonau iechyd a lles uchel, mae rhai eraill nad ydynt yn gwneud hynny. Yn yr achosion olaf, mae risg uwch y caiff ceffylau anafiadau a/neu glefydau o ganlyniad i wybodaeth, gofal neu adnoddau annigonol. Ar ben hynny mae risg mewn rhai achosion y caiff anifeiliaid eu gorddefnyddio neu eu defnyddio'n amhriodol, yn arbennig anifeiliaid geriatrig neu anifeiliaid sydd wedi'u hanafu. Mae risg y rhoddir triniaeth a gofal traed amhriodol a heb eu rheoleiddio i geffylau a all gynyddu'r risg y cânt anafiadau neu glefydau gryn dipyn. Mae diffyg cyfleusterau ynysu neu gwarantin a mesurau bioddiogelwch sylfaenol mewn rhai iardiau hurio ceffylau, ynghyd â'r ffaith bod ceffylau yn cael eu symud yn y cyfleusterau hyn, yn cynyddu'r risg y bydd clefydau yn ymledu.

Bridio	Mae'r sector greoedd a bridio yn eang ei gwmpas ac mae'n amrywio o fusnesau tra llwyddiannus a redir yn broffesiynol sy'n cynhyrchu anifeiliaid o safon ym mhen uchaf y raddfa, i'r busnesau a reolir yn wael sy'n cynhyrchu anifeiliaid o ansawdd gwael ar y gwaelod. Mae gormod o berchenogion o hyd sydd o'r farn, unwaith na ellir marchogaeth anifail mwyach, y dylid ei ddefnyddio at ddibenion bridio, p'un a yw'n addas ai peidio. Yn y pen isaf, mae risg y caiff ceffylau anafiadau neu glefydau oherwydd gwybodaeth neu ofal annigonol ac am nad oes cyfleusterau priodol. Gall hyn arwain at orfridio cesig neu fridio anifeiliaid sydd wedi'u hanafu neu anifeiliaid hŷn yn amhriodol. Gall hylendid gwael a diffyg cyfleusterau greu risg y caiff y gaseg a'r ebol eu heintio neu eu hanafu, ac mae diffyg cyfleusterau ynysu yn creu risg y bydd clefydau yn ymledu. Gall cesig anffrwythlon a gwyryfol gael eu trin yn wael mewn rhai cyfleusterau.
Ysgolion a Cholegau Marchogaeth	Mae llawer o ysgolion marchogaeth yn aelodau o Gymdeithas Ceffylau Prydain a/neu Gymdeithas Ysgolion Marchogaeth Prydain, ac o ganlyniad mae'n ofynnol iddynt gyrraedd a chynnal safonau iechyd a lles uchel. Ceir hefyd ysgolion marchogaeth nad ydynt yn aelodau o Gymdeithas Ceffylau Prydain na Chymdeithas Ysgolion Marchogaeth Prydain sy'n cynnal safonau uchel. Fodd bynnag, ceir iardiau lle y mae safonau yn wael. Mae rhai ysgolion marchogaeth heb eu trwyddedu ac maent yn masnachu'n anghyfreithlon. Yn yr iardiau hyn, mae risg y caiff ceffylau anafiadau neu glefydau oherwydd gwybodaeth a/neu ofal annigonol, neu oherwydd diffyg cyfleusterau neu adnoddau. Gall hyn arwain at anifeiliaid sydd wedi'u hanafu neu anifeiliaid geriatrig yn cael eu gorweithio, paru maint, pwysau a gallu marchog yn amhriodol i geffyl a defnyddio harneisiau nad ydynt yn ffitio'n dda. Mae hyn nid yn unig yn peryglu'r ceffyl, ond y marchog hefyd. Dylid cynnal safonau sylfaenol trwy'r Arolygiad Ysgolion Marchogaeth cyfredol, ond efallai na fydd hyn yn ddigonol lle y defnyddir ceffylau yn erbyn cyngor milfeddygol, neu lle nad arolygir cyfleusterau.
Adloniant	Er y caiff llawer o geffylau yn y sector adloniant eu trin yn dda, mae rhai pryderon ynghylch lle y cânt eu cadw yn ystod y tymor a gofal y tu allan i'r tymor, yn arbennig o ran asynnod traeth. Gall gorddefnydd a paru maint a phwysau'r marchog yn amhriodol i geffyl arwain at anafiadau.
Teithwyr a Ffeiriau	Er y gofelir yn dda am lawer o geffylau yng ngofal teithwyr, mae rhai na ofelir amdanynt yn dda ac mae amharodrwydd cyffredinol i geisio cymorth milfeddygol. Mae anifeiliaid sydd ar dennyn am gyfnodau hir o amser yn dueddol o gael eu hanafu ac mae natur deithiol y gymuned yn cynyddu'r risg y bydd clefydau yn ymledu. Mewn rhai achosion, mae gwybodaeth, cyfleusterau ac adnoddau annigonol yn cynyddu'r risg y caiff anifeiliaid anafiadau neu glefydau.
Anifeiliaid Lledwyllt	Mae gofalu am anifeiliaid lledwyllt yn gofyn am wybodaeth a sgil arbenigol a heb y rhain, mae risg y caiff yr anifeiliaid

	anafiadau neu glefydau. Ar ben hynny, gall eu gwerth ariannol sydd weithiau'n isel arwain at beidio â thrin anifeiliaid sydd wedi'u hanafu neu anifeiliaid â chlefyd. Gall fod diffyg safonau bridio, a all arwain at fewnfridio, gorfridio neu at fridio anifeiliaid o ansawdd gwael. Am fod y mwyafrif o'r anifeiliaid hyn yn cael eu pori ar dir comin a all fod dan berchenogaeth luosog, mae "cymdeithas cominwyr" neu sefydliad tebyg cryf yn hanfodol, yn ogystal â chynllun rheoli canolog ar gyfer yr ardal a'r ceffylau a geir yno.
Noddfeydd	Er mwyn rhedeg noddfa yn dda mae angen cryn dipyn o wybodaeth arbenigol, profiad ac adnoddau – yn ogystal ag ewyllys da. Ceir llawer o noddfeydd ardderchog sy'n darparu lloches a gwasanaeth adsefydlu ar gyfer cannoedd o geffylau. Fodd bynnag, mae llawer o noddfeydd heb adnoddau digonol a reolir yn wael hefyd ac mae risg y byddant yn gwneud mwy o ddrwg nag o les i'r anifeiliaid yn eu gofal. Er enghraifft, nid oes gan rai'r wybodaeth a'r profiad priodol i ymdrin ag anifeiliaid "anodd" sydd wedi'u hesgeuluso neu sydd wedi'u trin yn wael, neu nid oes ganddynt y cyfleusterau ynysu priodol a'r arferion sydd eu hangen i leihau'r risg y caiff clefydau eu cyflwyno ac y byddant yn ymledu.

[page 11 – AIM 1]

NOD 1: ADOLYGU SAFONAU IECHYD A LLES

Hyrwyddwr: Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol

1.1 Mae angen safonau sy'n diffinio iechyd a lles boddhaol ar gyfer ceffylau er mwyn mesur i ba raddau y mae anifeiliaid yn iach ac y maent yn cael eu trin yn drugarog, a chynorthwyo'r rhai sy'n gyfrifol amdanynt i gyflawni eu dyletswydd gofal.

1.2 Penderfynir ar iechyd a lles anifail yn ôl ei gyflwr corfforol a meddyliol, gan gynnwys addasrwydd i'r diben y bwriedir iddo ei gyflawni. Mae cyswllt anorfod rhwng yr agweddau hyn. Mae'r Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm yn cynnig 'Pum Rhyddid' sy'n berthnasol i geffylau ac a adlewyrchir mewn deddfwriaeth lles anifeiliaid.

- ***Rhyddid rhag Chwant Bwyd a Syched*** – trwy ddarparu mynediad hwylus i ddŵr glân a diet i sicrhau bod anifeiliaid yn gwbl iach ac yn llawn egni.
- ***Rhyddid rhag Anghysur*** - trwy ddarparu amgylchedd priodol gan gynnwys cysgod a man gorffwys cyfforddus.
- ***Rhyddid rhag Poen, Anafiadau neu Glefydau*** – trwy gamau atal neu drwy ddiagnosio a thrin anifeiliaid yn gyflym.
- ***Rhyddid i Ymddwyn yn Normal*** - trwy ddarparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni, fel y bo'n briodol.

- ***Rhyddid rhag Ofn a Gofid*** – trwy sicrhau amgylchiadau a thriniaeth sy'n osgoi dioddefaint meddyliol.

1.3 Mae'r Pum Rhyddid hyn yn diffinio sefyllfaoedd delfrydol. Maent yn sail ar gyfer safonau y mae angen eu mynegi yn ddiriaethol wedi'u teilwra at ddefnydd ymarferol. Mae safonau lles ar gyfer ceffylau wedi'u nodi ar hyn o bryd yng Nghompendiwm Canllawiau Lles y Diwydiant Ceffylau ar gyfer Ceffylau, Merlod ac Asynnod (NEWC, ail argraffiad 2005), yn ogystal ag mewn codau ymarfer mwy penodol, sectoraidd.

1.4 Mae perchenogion a cheidwaid ceffylau yn gyfrifol am iechyd a lles ceffylau a milfeddygon yw'r prif borth ar gyfer canllawiau ar safonau iechyd ceffylau. Dylai perchenogion fod yn gyfarwydd â'r rhaglenni iechyd ataliol priodol a ddylai fod ar waith ar gyfer eu hanifail (anifeiliaid), gan gynnwys, maeth, gofal traed a gofal deintyddol, brechiadau a rheoli llyngyr a gofalu am ebolion. Dylid llunio rhaglenni gan ymgynghori â'r milfeddyg. Dylai practisau milfeddygol hwyluso'r broses hon trwy annog perchenogion a cheidwaid i sicrhau bod ganddynt gynlluniau gofal iechyd milfeddygol ar gyfer pob ceffyl yn eu gofal a'u bod yn glynu wrthynt. Dylai practisau milfeddygol ddarparu deunydd addysgol am safonau iechyd ceffylau trwy gylchlythyrau ac ystyried cynnal cyfarfodydd addysg ar gyfer cleientiaid yn rheolaidd.

1.5 Ar ben hynny y perchennog neu'r ceidwad sy'n gyfrifol am allu adnabod afiechyd a cheisio cymorth milfeddygol yn ôl yr angen ac adnabod pryd y mae ansawdd bywyd yn dirywio, ceisio cyngor milfeddygol os oes angen a threfnu ewthanasia pan fo hynny'n briodol. Dylid ystyried sut y ceir gwared â'r carcas a deddfwriaeth berthnasol am y gall hyn effeithio ar y dull ewthanasia a ddewisir.

1.6 Ni fwriedir i'r Strategaeth hon ddisodli canllawiau a chodau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae angen trosolwg systematig o'r cyngor ysgrifenedig cyfredol ar safonau iechyd a lles ceffylau er mwyn sicrhau, gyda'i gilydd, eu bod yn darparu datganiad safonau digonol, cynhwysfawr, cyson a chlir, a nodi unrhyw fylchau sylweddol y mae angen ymdrin â hwy. Dylai'r adolygiad edrych ar gyfundrefnau lles sy'n cael eu datblygu neu a gyflwynwyd yn Ewrop a rhannau eraill o'r byd i asesu a ellir eu defnyddio ym Mhrydain, efallai gan wneud rhagor o ymchwil a'u haddasu ymhellach i'n hamgylchiadau cenedlaethol. Bydd yr adolygiad hefyd yn llywio gwaith ar rai Camau Gweithredu eraill.

1.7 Mae nifer o gyrff llywodraethol yn gyfrifol am nodi a gorfodi safonau ar gyfer rhai grwpiau defnyddwyr. Mae sefydliadau megis yr Awdurdod Rheoleiddio Rasio Ceffylau a Chymdeithas Neidio Ceffylau Prydain, gan weithio ochr yn ochr â chyrff eraill megis yr RSPCA, yn gwneud llawer o waith i nodi a chynnal safonau iechyd a lles o fewn eu meysydd diddordeb. Lle y'i ceir, mae'r math hwn o hunan-reoleiddio, gyda chymorth gan sefydliadau milfeddygol a sefydliadau lles, yn gweithio'n dda. Er enghraifft, o'r disgyblaethau cystadlu mae'n debyg mai rasio ceffylau yw'r un y creffir arni ac a reoleiddir fwyaf, ac mae mesurau diogelwch ar waith i atal defnyddio sylweddau gwaharddedig a lleihau hyd yr eithaf y risg y

caiff anifeiliaid glefydau ac anafiadau. Mae'n rhaid dadlau, er nad yw hunan-reoleiddio o reidrwydd yn ymdrin â phob mater iechyd a lles mewn ffordd a fyddai'n bodloni pawb, ei fod yn cael cryn effaith o ran gwella safonau iechyd a lles.

1.8 Fodd bynnag, ni reoleiddir pob grŵp defnyddwyr, ac mae tystiolaeth ddibynadwy am statws iechyd a lles y boblogaeth ceffylau at ei gilydd yn dameidiog. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y grŵp defnyddwyr hamdden, oherwydd ei fod mor fawr ac yn tyfu'n gyflym. Felly mae achos cryf dros systemau goruchwylio iechyd a lles ceffylau newydd (gweler Nodau 2 a 3) a thros gytuno, yng ngoleuni data goruchwylio, ar ffyrdd y gellir gwella safonau neu eu gorfodi yn fwy effeithiol.

Cam Gweithredu 1a: Adolygu pob datganiad (deddfwriaeth, codau ymarfer, canllawiau arfer gorau) yn ymwneud â safonau iechyd a lles o fewn grwpiau defnyddwyr ac ar eu traws, gan gynnwys safonau sy'n cael eu datblygu neu a fabwysiadwyd mewn gwledydd tramor; nodi unrhyw fylchau posibl ac ymdrin â hwy, a nodi ffyrdd y gellir gwella safonau, gan gynnwys trefniadau gorfodi a gwella addysg a hyfforddiant. Gweler hefyd Nodau 2, 3 a 6.

Cam Gweithredu 1b: Nodi meysydd lle nad oes unrhyw drefniadau ar waith i hyrwyddo a gorfodi safonau iechyd a lles ac ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem.

Cam Gweithredu 1c: Adolygu argaeledd a chostau ewthanasia, gwahanol ddulliau gwaredu carcasau a deddfwriaeth berthnasol.

Gweler y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A am ragor o fanylion.

[page 13 – AIM 2]

NOD 2: ADOLYGU'R TREFNIADAU AR GYFER GORUCHWYLIO IECHYD

Hyrwyddwr: Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain

2.1 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw drefniadau cynhwysfawr ar gyfer asesu statws iechyd y boblogaeth ceffylau genedlaethol. Fel elfen graidd o'r gwaith o wella lles ceffylau dros amser, dylid cyflwyno trefniadau goruchwylio iechyd, yn seiliedig ar ddangosyddion allweddol sy'n darparu tystiolaeth gadarn o statws iechyd ceffylau, wedi'u hisrannu pan fo hynny'n briodol i'r gwahanol grwpiau defnyddwyr. Mae angen casglu a chynnal data digonol er mwyn:

- Darparu llinell sylfaen ddilys sy'n nodi i ba raddau y mesurir ceffylau iach yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt;
- Nodi meysydd sy'n achosi problem, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn benodol â grwpiau defnyddwyr penodol;
- Asesu effaith afiechyd ac anafiadau;

- Helpu i atal a rheoli'r risgiau o glefydau ac anafiadau, gan gynnwys clefydau endemig ac egsotig a chlefydau heintus a chlefydau nad ydynt yn heintus; a
- Nodi, ysgogi a monitro gwelliannau, gan olrhain newidiadau dros amser fel y gellir asesu canlyniadau camau a gymerwyd a phenderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

2.2 Mae natur fwyfwy rhyngwladol y diwydiant ceffylau, lle y mae stoc bridio a'u cynhyrchion biolegol yn cael eu cludo mewn llongau o amgylch y byd, a lle y mae ceffylau chwaraeon yn teithio pellteroedd hir yn rheolaidd i gystadlu mewn digwyddiadau rhyngwladol, a'r ffaith bod ceffylau yn cael eu symud ledled yr Undeb Ewropeaidd estynedig, yn cynyddu'r risg y bydd clefydau heintus yn ymledu ynghyd â chanlyniadau lles, economaidd a chymdeithasol a allai fod yn sylweddol. Ar ben hynny, oherwydd newid yn yr hinsawdd mae mwy a mwy o gludwyr yn cael eu creu a all drosglwyddo a lledu clefydau egsotig, y mae rhai ohonynt yn peri bygythiadau difrifol i iechyd dynol yn ogystal ag iechyd ceffylau.

2.3 Er bod risg i iechyd dynol yn gysylltiedig â nifer fach o glefydau egsotig mewn ceffylau, mae cryn dipyn yn fwy o glefydau yn achosi problemau i geffylau ac maent yn fygythiad economaidd i'r diwydiant yn gyffredinol. Mae angen rhagfynegi problemau a bygythiadau iechyd a lles yn y dyfodol (gan gynnwys y rhai sy'n newydd sbon ac nas rhagwelir ar hyn o bryd efallai) a llunio cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â hwy. Yn arbennig, mae angen sicrhau bod Prydain yn gwbl barod i atal effaith epidemig clefyd egsotig mewn ceffylau neu i leihau hyd yr eithaf arni, gan arwain, yn ddelfrydol, lle bynnag y bo modd, at ei ddileu yn y pen draw. Felly mae angen i ni asesu pa mor barod yw'r diwydiant ceffylau a'r Llywodraeth am achosion o glefyd heintus ac i ba raddau y gallai ymdopi â'r canlyniadau economaidd a'r canlyniadau eraill.

2.4 Dechreuodd trafodaethau rhwng y diwydiant a'r Llywodraeth ynghylch iawndal am anifeiliaid sy'n cael eu difa yn orfodol os ceir achosion o rai clefydau penodol. Mae hyn yn berthnasol i iechyd a lles ceffylau am ei bod yn hanfodol na chaiff perchenogion a cheidwaid eu temtio i guddio achosion o glefydau yn benodol oherwydd y canlyniadau economaidd a'u bod yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd i leihau'r risg y cyflwynir clefydau. Mae angen dod â'r drafodaeth i derfyn, ac mae angen i'r diwydiant a'r Llywodraeth gymryd cyfrifoldeb cymesur.

Cam Gweithredu 2a: Adolygu'r trefniadau ar gyfer goruchwylio clefydau ceffylau, gan gynnwys clefydau endemig ac egsotig, clefydau heintus a chlefydau nad ydynt yn heintus, ac anafiadau ceffylau, gan gynnwys dadansoddi'r risgiau a'r costau cysylltiedig, ac ystyried unrhyw welliannau.

Cam Gweithredu 2b: Ystyried ffyrdd y gall Prydain ymbaratoi am oblygiadau economaidd achosion o glefydau heintus difrifol.

Cam Gweithredu 2c: Asesu trefniadau cynllunio wrth gefn y Llywodraeth a'r diwydiant ar gyfer clefydau hysbysadwy, gan roi sylw i gymaryddion Ewropeaidd a chymaryddion rhyngwladol eraill.

Cam Gweithredu 2ch: Sicrhau lefel uchel o wyliadwriaeth am fygythiadau newydd i iechyd a lles ceffylau a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg er mwyn gweithredu camau rhagweithiol neu adferol i leihau neu ddileu'r cyfryw fygythiadau.

Cam Gweithredu 2d: Nodi unrhyw feysydd eraill o iechyd a lles ceffylau lle y mae mesurau goruchwylio a rheoli ar waith neu ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu rhoi ar waith.

Cam Gweithredu 2dd: Adolygu Gorchymyn Clefydau Heintus Ceffylau 1987 i sicrhau ei fod yn gyfoes, ei fod yn adlewyrchu cynnwys cynllun wrth gefn STEED* ac yn ymgorffori gwersi a ddysgwyd o achosion blaenorol o glefydau a darpariaeth ar gyfer iawndal am ddifa anifeiliaid yn orfodol.

Gweler y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A am ragor o fanylion.

* Disgwylir y bydd drafft newydd o gynllun wrth gefn Mathau Penodol o Glefydau Egsotig mewn Ceffylau Defra ar gael at ddibenion cynnal ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd ar ddechrau 2007.

[page 15 – AIM 3]

NOD 3: ADOLYGU'R TREFNIADAU AR GYFER ARSYLLU LLES CEFFYLAU

Hyrwyddwr: Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol

3.1 Mae angen i'r diwydiant gael gwybod beth yw'r gwir sefyllfa o ran cam-drin ac esgeuluso ceffylau a chreulondeb i geffylau ym Mhrydain trwy gyflwyno trefniant goruchwylio ar gyfer lles ceffylau. Wedyn, dylid ystyried sut y gellir adolygu a gwella safonau, yn ôl yr angen.

3.2 Dylai unrhyw system goruchwylio lles ceffylau fod yn seiliedig ar adroddiadau gan grwpiau a sefydliadau, gan gynnwys y Llywodraeth, sydd â buddiant yn lles ceffylau.

3.3 Dylai'r diwydiant annog sefydliadau lles (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn aelodau o NEWC ar hyn o bryd) ac unrhyw sefydliadau ceffylau eraill y rhoddir gwybod iddynt am achosion lles, i rannu gwybodaeth am achosion, p'un a ydynt yn achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt, yr ymchwiliwyd iddynt, lle yr atafaelwyd anifeiliaid neu'n achosion a erlynwyd, â chorff canolog mewn fformat y cytunwyd arno. Dylid coladu'r data hwn, dylai gael ei werthuso gan banel o arbenigwyr (gan gynnwys milfeddygon), a dylid rhannu'r canlyniadau â'r rhai sy'n darparu'r data. Gellir ei ddefnyddio wedyn i adolygu a gwella safonau lles.

3.4 Dylai'r diwydiant nodi safonau gofal sylfaenol perthnasol ym mhob grŵp defnyddwyr a dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r safonau hyn fel Codau Ymarfer trwy'r grwpiau perthnasol, NEWC a'r Llywodraeth.

3.5 Defnyddir gwahanol systemau ar hyn o bryd i oruchwylio ac asesu problemau lles (e.e. Sgorio Cyflwr y Corff). Ni ddefnyddir y systemau yn eang ac nis deellir yn dda a, phan y'u datblygwyd ar gyfer brîd penodol, ni wyddys a ydynt yn ddibynadwy os cânt eu defnyddio gyda bridiau eraill. Mae angen adolygu'r systemau a dod i gytundeb ar draws y diwydiant fel y bydd swyddogion ymchwilio, cyrff erlyn, cynrychiolwyr cyfreithiol a Llysoedd i gyd yn defnyddio'r un dull mesur.

Cam Gweithredu 3a: Adolygu'r trefniadau ar gyfer arsyllu lles ceffylau ac ystyried unrhyw welliannau, gan gynnwys safoni dulliau mesur lles.

Cam Gweithredu 3b: Datblygu system o oruchwylio lles ceffylau yn seiliedig ar adroddiadau gan grwpiau a sefydliadau â buddiant yn lles ceffylau.

Gweler y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A am ragor o fanylion.

[page 16 – AIM 4]

NOD 4: ADOLYGU DULLIAU ADNABOD CEFFYLAU
Hyrwyddwr: Cymdeithas Ceffylau Prydain

4.1 Byddai sefydlu a hyrwyddo dull parhaol o adnabod ceffylau yn y sectorau hynny lle nad yw'r cyfryw system ar waith yn cael cryn effaith ar iechyd a lles. Yn arbennig, byddai'n:

- helpu perchenogion a cheidwaid i olrhain a nodi anifeiliaid a gollwyd neu a ladratwyd ac yn helpu i leihau nifer y ceffylau sy'n cael eu dwyn trwy atal lladron;
- caniatáu sefydliadau lles i olrhain perchenogion ceffylau y peryglwyd eu lles a nodi ceffylau rhydd neu geffylau a adawyd gan ei gwneud yn anos i bobl fod yn anonest neu dwyllo; a
- symleiddio'r gwaith o olrhain anifeiliaid sy'n gysylltiedig ag achosion o glefyd hysbysadwy, gyda'r gobaith y bydd hynny'n arwain at ddileu'r clefyd.

4.2 Ar hyn o bryd, mae Pasportau Ceffylau yn gweithredu fel dogfen adnabod ar gyfer pob ceffyl ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'r rhain yn dibynnu'n fawr ar amlinellau fel y prif ddull adnabod corfforol ond nid yw amlinellau yn ddigon effeithiol i gyflawni pob un o'r allbynnau a ddisgwylir ganddynt. Mewn rhai meysydd, mae'r diwydiant yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio dulliau adnabod mwy cadarn, e.e. microsglodion ar gyfer Ceffylau Pedigri.

4.3 Mae'r Undeb Ewropeaidd wrthi'n llunio fersiwn derfynol deddfwriaeth newydd o ran adnabod ceffylau. Disgwylir y bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i osod microsglodyn ym mhob ceffyl, gan ddechrau gydag ebolion a enir o ddyddiad penodol. Mae'n amlwg, unwaith y bydd y ddeddfwriaeth hon mewn grym, y byddai'n fuddiol i bob perchennog a cheidwad ceffylau ystyried defnyddio'r un dull adnabod parhaol gyda cheffylau hŷn a merlod. Deellir y bydd merlod gwyllt wedi'u heithrio cyn iddynt gael eu gwerthu. Nid yw'n glir eto pa gosbau a fydd ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth. Bydd gwybodaeth gyfoes am y ddeddfwriaeth newydd ar gael ar wefannau Defra a Chydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain.

4.4 Bydd y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol, am y tro cyntaf, yn darparu dull o gasglu gwybodaeth am y mwyafrif o geffylau ledled Prydain at ei gilydd. Cynlluniwyd y gronfa ddata i ddal data pasportau ceffylau yn ogystal â gwybodaeth am fridio, cystadlu a pherfformiad. Bydd y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol yn gweithredu fel y cofnod canolog ar gyfer rhifau microsglodion a data adnabod dewisol arall. Fodd bynnag, mae'n dra phwysig bod y wybodaeth a gedwir ar y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol yn gyfoes er enghraifft o ran newidiadau ym mherchenogaeth ceffylau a marwolaethau ceffylau.

Cam Gweithredu 4a: Monitro'r broses o ddatblygu deddfwriaeth newydd ar adnabod ceffylau.

Cam Gweithredu 4b: Gweithio gyda'r diwydiant yswiriant ac eraill, annog pobl i ddefnyddio'r dull adnabod corfforol parhaol y cytunwyd arno ar gyfer pob ceffyl.

Cam Gweithredu 4c: Hyrwyddo'r broses o gofnodi gwybodaeth am bob ceffyl ar y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol.

Gweler y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A am ragor o fanylion.

NOD 5: ADOLYGU ANGHENION AC ARGAELEDD MEDDYGINIAETHAU

Hyrwyddwr: Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain

5.1 Er mwyn rheoli clefydau a hyrwyddo iechyd a lles da ar draws pob grŵp defnyddwyr, mae'n hanfodol bod ystod ddigonol o feddyginiaethau effeithiol ar gael i drin y sbectrwm o glefydau a chyflyrau ceffylau.

5.2 Rhoddir cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol ar y farchnad o dan fframwaith rheoliadol Ewropeaidd. Gweithredir y ddeddfwriaeth yn y DU trwy Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol y mae'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD), un o asiantaethau gweithredol Defra, yn gyfrifol o danynt am awdurdodi cynhyrchion milfeddygol newydd ar gyfer marchnad y DU. Er mwyn cael eu hawdurdodi, mae'n rhaid dangos bod gan

gynhyrchion gydbwysedd ffafriol rhwng risg a manteision trwy asesu eu hansawdd, pa mor ddiogel ydynt a'u heffeithiolrwydd clinigol ac mae'n rhaid iddynt fod yn ddiogel i'r person sy'n eu rhoi a'r amgylchedd yn ogystal â'r ceffyl sy'n eu derbyn.

5.3 Er bod y system reoliadol hon yn effeithiol, mae'r cwmnïau fferyllol yn gorfod gwario cryn dipyn o arian a threulio amser yn datblygu cynhyrchion newydd ar gyfer y farchnad a fydd yn bodloni'r meini prawf hyn ac felly yn cael eu hawdurdodi. Mae'n anochel bod hyn, ynghyd â maint cymharol fach y farchnad ar gyfer llawer o feddyginiaethau milfeddygol ceffylau, yn golygu bod y gyfradd cyflwyno cynhyrchion newydd i'r farchnad yn isel ac felly mae'n ffactor cyfyngol o ran argaeledd cynhyrchion ceffylau awdurdodedig.

5.4 Os nad oes cynnyrch awdurdodedig i drin clefyd neu gyflwr ceffylau penodol, gall milfeddygon ragnodi cynhyrchion eraill trwy raeadr ragnodi. Mae hyn yn dibynnu ar alluoedd proffesiynol milfeddygon unigol. Yn ogystal â defnyddio'r rhaeadr mewn ffordd briodol, mae'n rhaid i'r milfeddyg sicrhau bod y sylwedd(au) gweithredol yn y cynnyrch y bwriedir ei roi i'r ceffyl wedi'i gofnodi (wedi'u cofnodi) yn Atodiad I, II neu III i Reoliad Ewropeaidd EC/2377/90, neu ei fod wedi'i restru (eu bod wedi'u rhestru) yn y 'Rhestr Hanfodol' (Rhestr Bositif) o sylweddau nas cofnodwyd yn Atodiadau I-III y gellir eu rhoi i geffylau y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl, ac, os felly, nodi cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd rhwng yr adeg y rhoddir y cynnyrch a'r adeg pan ellir difa'r anifail er mwyn iddo gael ei fwyta gan bobl. Os na ellir gwneud hynny, mae'n rhaid datgan na fwriedir i'r ceffyl gael ei fwyta gan bobl yn ei basport ac ni chaiff fynd i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol byth wedyn. Mae'r system hon yn rhan hanfodol o'r broses o ragnodi meddyginiaethau ar gyfer ceffylau ac mae'n hanfodol bwysig ei bod yn cael ei hyrwyddo a'i chadw.

5.5 Ar ben hynny, gall argaeledd cynhyrchion i'w rhoi i geffylau fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau yn deillio o faterion yn ymwneud â rhywogaethau eraill. Er enghraifft, arweiniodd deddfwriaeth Ewropeaidd ddiweddar at dynnu'n ôl, o ran ei ddefnyddio mewn ceffylau y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl, awdurdodiad cynnyrch meddyginiaethol milfeddygol ar gyfer ceffylau am ei fod yn cynnwys sylwedd a waharddwyd rhag cael ei ddefnyddio mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd.

5.6 Mae'r ffactorau cyfyngol hyn yn cyfyngu ar ddewis ystod briodol ac effeithiol o driniaethau meddyginiaethol milfeddygol ar gyfer y sbectrwm llawn o glefydau a chyflyrau ceffylau ac ar argaeledd y cyfryw driniaethau. Felly cynigir y dylid sefydlu Gweithgor i ystyried a nodi anghenion yn y dyfodol o ran meddyginiaethau milfeddygol ceffylau, cynnig cynlluniau i ddiwallu'r anghenion hynny a sicrhau bod meddyginiaethau milfeddygol ceffylau hanfodol yn parhau i fod ar gael. Dylai'r Grŵp fabwysiadu agwedd eang ac ystyried ateb sy'n canolbwyntio ar Ewrop. Dylai gynnwys cynrychiolwyr o bob parti â buddiant gan gynnwys Cyfarwyddiaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid Defra, Swyddfa Iechyd

Anifeiliaid Genedlaethol (NOAH) i gynrychioli'r diwydiant fferyllol, y diwydiant ceffylau a Chymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain (BEVA). Dylai'r VMD gael ei gynrychioli ond fel sylwedydd am na all gymryd rhan mewn ymchwil a datblygu na materion cyflenwi am ei fod yn awdurdod rheoliadol.

5.7 Mae'n bwysig bod pob perchennog a cheidwad ceffylau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn eu cyflawni o ran rhoi meddyginiaethau i geffylau, gan gynnwys storio sylweddau meddygol a ddefnyddir yn ddiogel, eu rhoi yn ddiogel a'u cofnodi. Ar ben hynny, mae gan y diwydiant, ynghyd â Defra, VMD, NOAH a BEVA, rôl ganolog i'w chwarae o ran addysgu perchenogion a darparu gwybodaeth ar gyfer perchenogion.

5.8 Mae hefyd yn bwysig y sicrheir eglurder ynghylch y diffiniad o gynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol (a ddiffinnir ar hyn o bryd fel cynhyrchion yr honnir eu bod yn rhai meddyginiaethol naill ai trwy 'gyflwyniad' neu 'swyddogaeth', ac y gwahaniaethir yn glir rhwng y sylweddau hyn a sylweddau heb effaith feddyginiaethol, gan gynnwys ychwanegion porthiant. Mae'n hanfodol bod y diwydiant yn hyrwyddo addysg i bawb sy'n ymwneud â gofalu am geffylau a'u cadw fel y deellir y gwahaniaeth rhwng cynhyrchion meddyginiaethol a chynhyrchion eraill. O ran Nod 1.4, mae gan y diwydiant, y VMD a milfeddygon rolau allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hyn a phwysigrwydd defnyddio cynhyrchion meddyginiaethol a chynhyrchion anfeddyginiaethol yn briodol wrth drin ac atal clefydau. Yn benodol, mae angen i berchenogion a cheidwaid ceffylau allu barnu pryd y mae cyngor milfeddygol yn briodol a phryd y mae'n briodol rhoi cynhyrchion meddyginiaethol.

Cam Gweithredu 5a: Sefydlu gweithgor i nodi anghenion cyfredol ac anghenion tebygol yn y dyfodol o ran cyflenwi meddyginiaethau ac argymell sut orau i'w diwallu.

Gweler y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A am ragor o fanylion.

[page 19 – AIM 6]

NOD 6: ADOLYGU ADDYSG, SGILIAU A HYFFORDDIANT
Hyrwyddwr: LANTRA

6.1 Er mwyn sicrhau iechyd a lles da ceffylau, mae angen i bawb sy'n ymwneud â cheffylau gael digon o addysg am y gofynion o ran safonau gofal ceffylau cywir a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion hynny. Mae angen systemau sy'n cydnabod sgiliau a chymwyseddau unigolion sy'n ymwneud â gofalu am geffylau. Nid yw dadansoddiad risg rhagarweiniol yn gwrthddweud y farn gyffredinol bod gan berchenogion a cheidwaid ceffylau wybodaeth a sgiliau priodol, ond dengys diffygion mewn rhannau o rai grwpiau defnyddwyr. Dylid cynnal archwiliad manylach o'r lefelau addysg a sgiliau a geir ar draws y diwydiant ceffylau, gan gynnwys dadansoddiad o gryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol.

6.2 Yng ngoleuni'r archwiliad hwn, efallai y cytunir bod angen llunio cynllun addysg, sgiliau a hyfforddiant, wedi'i deilwra i wahanol grwpiau ac is-grwpiau defnyddwyr, a fydd, ymhlith pethau eraill, yn helpu i baratoi perchenogion a cheidwaid ceffylau am eu rôl o ran deall ymddygiad normal ac annormal gan geffylau, sicrhau iechyd ac atal clefydau. Gallai'r cynllun hyrwyddo arfer priodol o ran, er enghraifft, bwydo a maeth, rheoli llyngyr, cludo anifeiliaid yn ddiogel, stablau a gosod harneisiau. Dylai roi sylw priodol i anghenion darpar berchenogion a pherchenogion newydd, a pherchenogion nad ydynt yn aelodau o'r un o'r sefydliadau ceffylau. Dylai gydnabod y rôl sylfaenol a chwaraeir gan sefydliadau hyfforddi ac ysgolion marchogaeth o ran addysg iechyd a lles oherwydd yn aml dyma lle y mae pobl yn dod i gysylltiad â cheffylau am y tro cyntaf. Felly maent yn lleoedd dysgu tra phwysig. Dylai'r cynllun hefyd gydnabod y rôl sydd gan reolwyr iardiau hurio, yn arbennig y rhai sy'n rhedeg "iardiau ar eich liwt eich hun", o ran cynghori perchenogion newydd. Bydd angen cryn ymdrech i roi cyhoeddusrwydd eang i'r cynllun. Bydd angen iddo gyd-fynd â mesurau yn y Strategaeth ar gyfer y Diwydiant Ceffylau yng Nghymru a Lloegr i godi lefelau sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn y diwydiant.

Cam Gweithredu 6a: Archwilio lefelau addysg a sgiliau a darpariaeth hyfforddiant, a nodi bylchau sylweddol.

Cam Gweithredu 6b: Llunio a chyflwyno cynllun ag adnoddau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sylweddol a nodwyd yng Ngham Gweithredu 6a.

Gweler y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A am ragor o fanylion.

[page 20 – AIM 7]

NOD 7: ADOLYGU GOFYNION YMCHWIL
Hyrwyddwr: Yr Ymddiriedolaeth Ceffylau

7.1 Mae ymchwil filfeddygol o'r pwys pennaf i wella lles ceffylau trwy gynyddu dealltwriaeth o iechyd, clefydau, cyflyrau annormal ac anafiadau ceffylau, gan wella gweithgarwch atal, diagnosio, trin a rheoli. Er mwyn gwella iechyd a lles ceffylau trwy ymchwil filfeddygol mae angen sicrhau bod arian ar gael a bod yr arian hwnnw yn cael ei ddefnyddio'n rhesymegol, mae angen cnewyllyn cenedlaethol o wyddonwyr a milfeddygon a hyfforddwyd yn briodol a chanddynt gyfleusterau addas i wneud ymchwil, ac mae angen rhoi gwybod am ganlyniadau.

7.2 Mae Prydain yn ffodus am fod ganddi sail ymchwil weithredol mewn sefydliadau academaidd a gwyddonol ac am fod arian ar gael i wneud ymchwil i geffylau. Mae proses adolygu drylwyr yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r arian hwn i sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf o ran ymchwil a pherthnasedd i les. Mae gweithwyr ymchwil yn lledaenu eu canlyniadau i'r proffesiwn

milfeddygon ceffylau a'r gymuned wyddonol ehangach trwy'r llenyddiaeth a'r cynadleddau gwyddonol. Rhoddir gwybod i'r diwydiant am ganlyniadau trwy gyfarfodydd a chyhoeddiadau 'lleyg'. Mae cyfleoedd cyffrous ar y gorwel ar gyfer ymchwil i geffylau, er enghraifft, mae'r gwaith o ddilyniannu genom ceffylau a gwblhawyd yn ddiweddar wedi esgor ar gyfleoedd ar gyfer gwella gweithgarwch atal o ran ystod ehangach o glefydau nag a fu'n bosibl gynt. Gallai'r adolygiad o drefniadau goruchwylio clefydau o dan Nod 2 y Strategaeth hon lywio camau gweithredu yn y dyfodol, gan gynnwys ymchwil, i wella gweithgarwch atal clefydau a rheoli risg.

7.3 Er bod y trefniadau cyfredol ar gyfer ymchwil yn foddhaol, mae'n amserol adolygu'r sefyllfa genedlaethol i sicrhau bod Prydain yn parhau i wella iechyd a lles ceffylau trwy wyddoniaeth gan ddefnyddio'r gwelliannau hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Gan weithio ar y cyd â'r trefniadau goruchwylio iechyd yn Nod 2, dylai'r adolygiad gwmpasu o leiaf y canlynol:

- Ffynonellau arian cyfredol a chyfleoedd i sicrhau cymaint o gyllid â phosibl o ffynonellau cenedlaethol a ffynonellau UE yn unol â chyfleoedd ymchwil.
- Cyfleoedd i wella ansawdd ymchwil i geffylau a sicrhau mwy o gynnydd yn y maes a gwella'r modd y defnyddir datblygiadau technolegol er budd iechyd a lles ceffylau.
- Cyfleoedd i wella'r modd y dyrennir, y dosberthir ac y defnyddir arian.
- Cyfleoedd i wella dealltwriaeth o wyddoniaeth o ran iechyd a lles ceffylau.
- Cyfleoedd i sicrhau y rhoddir gwybod i bobl am ganlyniadau ymchwil ac y gweithredir arnynt yn well.

Cam Gweithredu 7a: Adolygu'r trefniadau ar gyfer ymchwil filfeddygol; nodi cyfleoedd i gynyddu cyllid ar gyfer ymchwil, gwella ansawdd ymchwil a sicrhau mwy o gynnydd, gwella'r modd y dyrennir, y dosberthir ac y defnyddir arian, a sicrhau y rhoddir gwybod i bobl am ganlyniadau ac y gweithredir arnynt yn well.

Gweler y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A am ragor o fanylion.

NOD 8: ADOLYGU CYFLAWNIAD A DATBLYGU PELLACH

Hyrwyddwr: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain

8.1 Mae cyhoeddi'r Strategaeth hon yn gam pwysig tuag at wella safonau cyffredinol iechyd a lles ceffylau ym Mhrydain. Fodd bynnag nis cyhoeddwyd er ei mwyn ei hun – dyma'r man cychwyn. Dim ond trwy anelu'n weithredol at y Nodau, cyflawni'r Camau Gweithredu, monitro ac asesu'r canlyniadau sy'n deillio o hynny a chymryd camau pellach pan fo hynny'n briodol y sicrheir y gwelliannau sydd eu hangen. Mae gan yr Hyrwyddwyr a wirfoddolodd i arwain y broses hon o ran pob un o'r Nodau gyfrifoldeb clir i ddatblygu gwahanol elfennau'r Strategaeth, ond ni allant wneud hynny ar eu pennau eu hunain. Maent yn gweithredu fel hwyluswyr a bydd angen i bob un ohonynt gael eu cynorthwyo gan eu sefydliadau ac unigolion eraill sy'n cymryd rhan yn y Camau Gweithredu

perthnasol. Bydd angen gwaith cydlynu hefyd lle y mae meysydd gweithgarwch yn gorgyffwrdd. Felly bydd angen cryn ymdrech i weithredu'r Strategaeth, ymdrech a fydd yn gofyn am ymrwymiad a brwdfrydedd yr unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni pob Nod, ac yn y pen draw, y diwydiant ceffylau ehangach ym Mhrydain, ac a fydd yn dibynnu ar yr ymrwymiad a'r brwdfrydedd hwnnw.

8.2 Mae angen gweithgarwch goruchwylio effeithiol i sicrhau y gweithredir y Strategaeth yn llawn ac y'i hadolygir yn rheolaidd. I'r perwyl hwnnw, bydd BHIC, sydd eisoes yn gyfrifol am Strategaeth Diwydiant Ceffylau Cymru a Lloegr, sy'n strategaeth economaidd a chymdeithasol yn bennaf, yn cydlynu ac yn monitro'r modd y gwneir y gwaith hwn. Mae BHIC mewn sefyllfa dda i gyflawni'r rôl hon, o gofio'r profiad helaeth sydd gan ei aelodau. Fodd bynnag, ni chynrychiolir pob grŵp sydd â buddiant mewn gwireddu'r Weledigaeth fel y'i nodir yn y tudalennau hyn yn uniongyrchol ar ei Fwrdd. Felly bydd yn rhaid iddo alw ar arbenigedd grwpiau buddiant ehangach a derbyn eu cefnogaeth lawn i fwrw ymlaen â'r Camau Gweithredu.

8.3 Cyhoeddir y Cynllun Gweithredu ar y wefan benodol (www.equinehealthandwelfarestrategy.co.uk) a nodir yn glir pwy sy'n gyfrifol am beth. Ceir dolen gyswllt hefyd o wefan BHIC (www.bhic.org.uk). Adolygir cynnydd yn anffurfiol ar ôl chwe mis gan grŵp llywio o dan nawdd BHIC. Flwyddyn ar ôl cyhoeddi'r Cynllun, bydd y grŵp hwn yn cyflwyno adroddiad ar yr hyn a gyflawnwyd yn llawn, yr hyn a gyflawnwyd yn rhannol a'r hyn sydd eto i'w wneud.

8.4 Bydd y Camau Gweithredu a nodir yn y Strategaeth hon yn darparu sail dystiolaeth gadarnach ar gyfer asesu iechyd a lles ceffylau a phenderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ac, os felly, pa fath o gamau y dylid eu cymryd. Dylai unrhyw gamau gweithredu pellach fod yn gymesur ac yn gost-effeithiol, dylent roi sylw llawn i gostau a manteision, a dylid darparu adnoddau priodol ar eu cyfer.

Cam Gweithredu 8a: Sicrhau y gweithredir y Strategaeth, monitro ei heffeithiolrwydd, ac adolygu ei chynnwys i benderfynu a oes angen newidiadau ac os felly pa fath o newidiadau sydd eu hangen.

Gweler y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A am ragor o fanylion.

ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IECHYD A LLES CEFFYLAU

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd
NOD 1: Adolygu safonau iechyd a lles **Hyrwyddwr:** Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol **Amseriad:** Tymor Canolig				
Cam Gweithredu 1a: Adolygu pob datganiad (deddfwriaeth, codau ymarfer, canllawiau arfer gorau) yn ymwneud â safonau iechyd a lles o fewn grwpiau defnyddwyr ac ar eu traws, gan gynnwys safonau sy'n cael eu datblygu neu a fabwysiadwyd mewn gwledydd tramor; nodi unrhyw fylchau posibl ac ymdrin â hwy, a nodi ffyrdd y gellir gwella safonau, gan gynnwys trefniadau gorfodi a gwella addysg a hyfforddiant. Gweler hefyd Nodau 2, 3 a 6.	NEWC a'i aelodau, Defra a BEVA.	Mae Compendiwm Canllawiau Lles y Diwydiant Ceffylau yn ddogfen gynhwysfawr sy'n nodi safonau iechyd a lles. Mae'r Compendiwm yn cynnwys rhestr o Godau Ymarfer a chanllawiau arfer gorau. Mae gwybodaeth am iechyd a lles ceffylau ar gael mewn cyhoeddiadau argraffedig a thrwy'r rhyngrwyd. Nid yw manwl gywirdeb y wybodaeth hon o reidrwydd wedi'i ddilysu gan waith craffu proffesiynol priodol. Dim gwybodaeth ganolog am fylchau posibl. Mae'n bosibl nad oes llawer o berthynas rhwng addysg a hyfforddiant a gofynion mewn rhai sectorau o'r	Datganiadau diffiniedig o safonau iechyd a lles gofynnol ar gyfer grwpiau defnyddwyr. Cydweithrediad y diwydiant i lunio, diweddaru a chynnal pob datganiad cyngor neu arweiniad. Sicrhau bod datganiadau ar gael yn hwylus ar un wefan a/neu ar ffurf pdf neu lyfryn. Cydweithredu rhwng y diwydiant ac ymgynghori er mwyn ymdrin â bylchau. Darperir ar gyfer gofynion arbenigol y diwydiant ceffylau a gofynion lles ceffylau arbenigol gan Golegau a Phrifysgolion/Lantra.	Cysylltu â phob sefydliad ceffylau i nodi'n gliriach: pa ddatganiadau a geir; fersiynau diweddaraf. Gofyn am gydweithrediad y diwydiant i nodi bylchau a chydweithio i ymdrin â bylchau hyn. Gofyn am gydweithrediad y diwydiant i rannu a llunio safonau iechyd a lles sy'n ymwneud yn benodol â grwpiau defnyddwyr. Adolygiadau rheolaidd gyda Defra o ran meysydd lle y mae angen deddfwriaeth neu newidiadau penodol. Gwaith gyda Lantra, BHS a darparwyr addysg eraill i sefydlu sail i addysg a hyfforddiant ceffylau gan roi sylw penodol i iechyd a

		diwydiant. Mae safonau wrthi'n cael eu datblygu neu maent wedi'u cyflwyno mewn gwledydd Ewropeaidd eraill/rhannau eraill o'r byd.	Systemau y cytunwyd arnynt ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddatganiadau. Sicrhau cyllid i gyflawni'r uchod.	lles. Sefydlu gwefan safonau iechyd a lles ceffylau.

[page 24]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd
Cam Gweithredu 1b: Nodi meysydd lle nad oes unrhyw drefniadau ar waith i hyrwyddo a gorfodi safonau iechyd a lles ac ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem.	BEVA, NEWC	Ar hyn o bryd mae rhai rhannau o'r diwydiant lle na wneir fawr ddim ymdrech i annog a hyrwyddo safonau iechyd a lles.	Nodi meysydd lle y dylid hyrwyddo a gorfodi safonau iechyd a lles.	Defnyddio canlyniadau Cam Gweithredu 1a i nodi meysydd lle y mae grwpiau â buddiant yn pryderu ynghylch bylchau a diffygion. Annog proses o nodi'r cyfryw feysydd ar draws y diwydiant. Datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.
Cam Gweithredu 1c: Adolygu argaeledd a chostau ewthanasia, gwahanol ddulliau gwaredu carcasau a deddfwriaeth berthnasol.	BEVA, NEWC	Mae costau ac argaeledd yn amrywio ledled y wlad.	Perchenogion addysgedig sy'n gwybod yn union pa ddulliau sydd ar gael.	Nodi cyngor cyfredol a'i ddiweddaru yn ôl yr angen.

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd

NOD 2: Adolygu'r trefniadau ar gyfer goruchwylio iechyd
Hyrwyddwr: Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain
Amseriad: Tymor Canolig

Cam Gweithredu 2a: Adolygu'r trefniadau ar gyfer goruchwylio clefydau ceffylau, gan gynnwys clefydau endemig ac egsotig, clefydau heintus a chlefydau nad ydynt yn heintus, ac anafiadau ceffylau, gan gynnwys dadansoddi'r risg a chostau cysylltiedig, ac ystyried unrhyw welliannau.	BEVA, Yr Ymddiriedolaeth Iechyd Anifeiliaid (AHT), ILPH, Defra	Gwneir gwaith goruchwylio clefydau egsotig (Defra). Gwneir gwaith goruchwylio goddefol o ran clefydau endemig trwy goladu cyflwyniadau i labordai (AHT/Defra/BEVA). Mae gan y sector rasio drefniadau ar gyfer cofnodi digwyddiadau iechyd yn gysylltiedig â rasio. Mae'r Ymddiriedolaeth Iechyd Anifeiliaid yn rhedeg y Rhaglen Goruchwylio Ffliw Ceffylau.	Y gwaith goruchwylio clefydau yn parhau ond wedi'i newid i hwyluso proses lle y profir achosion lle yr *amheuir* clefydau heintus yn y DU. Cydweithrediad y diwydiant i sicrhau yr eir ati i oruchwylio clefydau endemig ac y rhoddir gwybod am unrhyw achosion a ganfyddir.	Sefydlu grŵp i'r diwydiant cyfan i adolygu'r trefniadau cyfredol ar gyfer goruchwylio clefydau egsotig ac endemig. Nodi camau cyfyngol cynlluniau cyfredol a'u hunioni. Mae angen adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod cynlluniau yn gyfoes, yn berthnasol ac yn briodol.
Cam Gweithredu 2b: Ystyried ffyrdd y gall Prydain ymbaratoi am oblygiadau economaidd achosion o glefyd heintus.	Defra	Ar hyn o bryd ymdrinnir â hyn gan Defra gan ymgynghori â grwpiau arbenigol.	Amcangyfrifon realistig o gostau tebygol achosion o glefydau endemig ac egsotig heintus hysbys. Modelau y gellir eu defnyddio i amcangyfrif costau tebygol clefydau newydd neu glefydau sy'n dod i'r amlwg.	Sefydlu grŵp dan arweiniad Defra i adolygu'r trefniadau cyfredol, parhau i wneud dadansoddiadau cost-budd o achosion o glefydau heintus a datblygu'r cyfryw waith dadansoddi. Sicrhau y datblygir y pwynt

			Grŵp polisi a arweinir gan Defra sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sector o'r diwydiant, gan gynnwys gwyddonwyr milfeddygol ac epidemiolegwyr arbenigol.	gweithredu hwn mewn cysylltiad agos â Cham Gweithredu 2a.

[page 26]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd
Cam Gweithredu 2c: Asesu trefniadau cynllunio wrth gefn y Llywodraeth a'r diwydiant ar gyfer clefydau hysbysadwy, gan roi sylw i gymaryddion Ewropeaidd a rhyngwladol.	Defra	Ar hyn o bryd ymdrinnir â hyn gan Defra gan ymgynghori â grwpiau arbenigol	Cynlluniau wrth gefn cyfredol a pherthnasol ar gyfer clefydau hysbysadwy. Grŵp a arweinir gan Defra sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sector o'r diwydiant, gan gynnwys gwyddonwyr milfeddygol ac epidemiolegwyr arbenigol, i adolygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer clefydau hysbysadwy yn rheolaidd a bod yn ymatebol i risgiau ac anghenion cyfnewidiol y diwydiant yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.	Sefydlu grŵp dan arweiniad Defra i asesu'r trefniadau cynllunio a'r trefniadau wrth gefn cyfredol. Sicrhau y datblygir y pwynt gweithredu hwn mewn cysylltiad agos â Cham Gweithredu 2a.
Cam Gweithredu 2ch: Sicrhau lefel uchel o wyliadwriaeth am fygythiadau newydd i	Defra	Cydlynir gwaith goruchwylio clefydau egsotig trwy Defra a'r fframwaith	Gwella sgiliau a gallu o ran clefydau heintus ym mhob sector o'r diwydiant sy'n gyfrifol am iechyd gofal	Sefydlu grŵp dan arweiniad Defra yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, ac arbenigwyr o

iechyd a lles ceffylau a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg er mwyn gweithredu camau rhagweithiol neu adferol i leihau neu ddileu'r cyfryw fygythiadau.		rheoliadol ar gyfer clefydau hysbysadwy. Gwneir gwaith gwyliadwriaeth am glefydau endemig ac egsotig yn y maes yn bennaf gan filfeddygon sy'n gweithio mewn practis ceffylau neu bractis cymysg.	ceffylau i sicrhau'r lefelau uchaf o wyliadwriaeth. Parhau i hyfforddi milfeddygon maes i wella sgiliau a gallu o ran clefydau heintus, yn arbennig ym meysydd adnabod clefydau, epidemioleg clefydau a rheoli clefydau. Parhau â rhaglenni hyfforddiant ac ymchwil arbenigol ym maes clefydau heintus ac epidemioleg ceffylau.	feysydd gwyddoniaeth ac epidemioleg filfeddygol. Adolygu'r trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant ym maes clefydau heintus mewn addysg filfeddygol israddedig ac ôl-raddedig. Meithrin ymwybyddiaeth o ba mor bwysig yw'r gallu i ymdrin â chlefydau heintus ymhlith y rhai sy'n darparu addysg filfeddygol israddedig ac ôl-raddedig.

[page 27]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Cam Gweithredu in Progress
			Addysgu perchenogion a cheidwaid ceffylau am glefydau heintus a bygythiadau newydd i boblogaeth ceffylau'r DU neu fygythiadau sy'n dod i'r amlwg.	Trwy grwpiau lles ceffylau a grwpiau yn y diwydiant ceffylau, meithrin ymwybyddiaeth perchenogion ceffylau o glefydau ceffylau heintus newydd a chlefydau ceffylau heintus sy'n dod i'r amlwg.
Cam Gweithredu 2d: Nodi unrhyw feysydd eraill o iechyd a lles ceffylau lle y mae mesurau	Defra	Goruchwylir safonau iechyd a lles cyffredinol gan y diwydiant a grwpiau chwaraeon ac ar gyfer	Cynlluniau gofal iechyd milfeddygol ar gyfer pob ceffyl ym Mhrydain.	Bydd BEVA a phractisau milfeddygol yn annog perchenogion a cheidwaid ceffylau i fabwysiadu

goruchwylio a rheoli ar waith neu ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu rhoi ar waith.		ceffylau a gynhwysir yn y Ddeddf Sefydliadau Marchogaeth. Bydd y Ddeddf Lles Anifeiliaid yn ymestyn gweithgarwch goruchwylio i gynnwys ceffylau a gedwir mewn iardiau hurio. Ni oruchwylir iechyd ceffylau nas cynhwysir yn y grwpiau uchod mewn ffordd gydgysylltiedig.	Codi ymwybyddiaeth perchenogion a cheidwaid ceffylau o bwysigrwydd goruchwylio iechyd a lles. Gwell gwybodaeth a gallu o ran goruchwylio iechyd ar gyfer pawb sy'n ymwneud â gofalu am geffylau.	cynlluniau iechyd a glynu wrthynt. Bydd y diwydiant a'r cyfryngau yn cynyddu ymwybyddiaeth perchenogion/ceidwaid o'u cyfrifoldebau a phwysigrwydd cynlluniau iechyd.
Cam Gweithredu 2dd: Adolygu Gorchymyn Clefydau Heintus Ceffylau 1987 i sicrhau ei fod yn gyfoes, ei fod yn adlewyrchu cynnwys cynllun wrth gefn STEED* ac yn ymgorffori gwersi a ddysgwyd o achosion blaenorol o glefydau a darpariaeth ar gyfer iawndal am ddifa anifeiliaid yn orfodol.	Defra	Ar hyn o bryd ymdrinnir â hyn gan Defra gan ymgynghori â grwpiau arbenigol gan gynnwys BEVA.	Deddfwriaeth gyfredol, berthnasol a phriodol sy'n adlewyrchu anghenion y diwydiant ac sy'n ymatebol i newidiadau o ran iechyd ceffylau rhyngwladol a risgiau i boblogaeth ceffylau Prydain sy'n dod i'r amlwg. Fframwaith i ganiatáu adolygiadau rheolaidd o ddeddfwriaeth clefydau heintus.	Grŵp adolygu dan arweiniad Defra yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, gan gynnwys gwyddonwyr ac epidemiolegwyr milfeddygol arbenigol.

[page 28]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd

NOD 3: Adolygu'r trefniadau ar gyfer arsyllu lles ceffylau

Hyrwyddwr: Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol
Amseriad: O fewn dwy flynedd

Cam Gweithredu 3a: Adolygu'r trefniadau ar gyfer arsyllu lles ceffylau ac ystyried unrhyw welliannau, gan gynnwys safoni dulliau mesur lles. .	NEWC a'i aelodau, Defra, BEVA.	Nid oes un trefniant ar gyfer y diwydiant cyfan. Mae rhai sefydliadau yn cydweithio'n agos. Mae sefydliadau eraill yn gweithredu ar eu pennau eu hunain, a dim ond pan fo angen gwneud hynny y maent yn gweithio gyda sefydliadau eraill. Ystadegau NEWC yw'r unig fesur o achosion lles ar gyfer y diwydiant cyfan ond nid ydynt yn gwbl gynhwysfawr. Mae grwpiau rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd, ond ddim yn gyson ym mhob rhan o'r wlad. Yn aml nid yw sefydliadau lles yn cael fawr ddim cymorth gan lywodraeth leol pan fydd problemau yn codi. Nid oes unrhyw gytundeb cyffredinol ar ddulliau mesur lles.	Cyfarfodydd rhanbarthol rheolaidd sy'n cynnig cyfle i bob sefydliad gymryd rhan, a gydlynir gan un sefydliad. Pennu safon genedlaethol ar gyfer cofnodi problemau yn ystadegol. Gofyniad bod mwy o sefydliadau yn casglu, coladu a dosbarthu gwybodaeth. Cytundeb ar fesur o les ceffylau a dderbynnir yn genedlaethol.	Annog sefydliadau i gydweithio o'r brig. Sefydliadau i ddysgu am y cyfleoedd newydd a'r anawsterau posibl sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Lles Anifeiliaid. Datblygu cydweithrediad â swyddogion llywodraeth leol, trwy LACORS, yn arbennig ym maes trwyddedu safleoedd ceffylau. ILPH i lansio (2007) ymgyrch i ddileu gordewdra ymysg ceffylau. Mae NEWC yn parhau i ddatblygu cwmpas ei adroddiad ystadegol blynyddol. Cynllun peilot NEWC i annog pobl nad ydynt yn aelodau i fynychu cyfarfodydd Rhanbarthol. Is-bwyllgor NEWC i gysylltu â phob sector o'r diwydiant ar siartiau Sgorio Cyflwr y Corff.

[page 29]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd
Cam Gweithredu 3b: Datblygu system o oruchwylio lles ceffylau yn seiliedig ar adroddiadau gan grwpiau a sefydliadau â buddiant yn lles ceffylau.	NEWC a'i aelodau, Defra ac Awdurdodau Lleol.	Mae unigolion yn rhoi gwybod am eu pryderon i nifer o sefydliadau ar yr un pryd, sy'n gwastraffu amser ac adnoddau. Chwyn niweidiol – ymdrinnir â llysiau'r gingroen yn eithaf da ond nid oes unrhyw ffynhonnell ganolog o wybodaeth ddibynadwy.	Poblogaeth gyffredinol fwy hyddysg o ran yr hyn sy'n gyfystyr â digwyddiadau y mae angen rhoi gwybod amdanynt. Ffordd sefydledig o roi gwybod am ddigwyddiadau a chysylltu rhwng y gwahanol sefydliadau dan sylw. Sicrhau arian ar gyfer diweddaru gwybodaeth. Corff canolog i goladu gwybodaeth, ei gwerthuso, ei lledaenu a'i defnyddio i wella iechyd a lles.	Datblygu a chyhoeddi cyngor ar yr hyn sy'n gyfystyr â phroblem a sut orau i roi gwybod amdani. Datblygu a chyhoeddi cyngor ar ba sefydliad a all ymdrin orau â phroblemau penodol. Sefydlu systemau i ddefnyddio gwybodaeth i wella addysg a lles. Bydd gwefan 'un stop' NEWC ar gyfer yr holl wybodaeth sydd ar gael am lysiau'r gingroen yn weithredol yn 2007. www.theragworthub.co.uk

[page 30]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd

Nod 4: Adolygu dulliau adnabod ceffylau
Hyrwyddwr: Cymdeithas Ceffylau Prydain
Amseriad: Byrdymor

Cam Gweithredu 4a:	Defra, RSPCA, NEWC,	Defnyddir	Dull adnabod parhaol ar	Cynorthwyo Defra gyda'i

Monitro'r broses o ddatblygu deddfwriaeth newydd ar adnabod ceffylau.	BEVA, BHS, BEF, BETA gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a gweithredwyr systemau adnabod	microsglodion/rhewfrandiau ac ati yn wirfoddol, ac fe'u cofrestrir gyda'r gweithgynhyrchwr/gweithredwr. Disgwylir i'r UE gymeradwyo deddfwriaeth newydd ar adnabod ceffylau	gyfer pob ceffyl a gofrestrir ar y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol.	gwaith ymgynghori ynghylch deddfwriaeth yr UE. Hyrwyddo cydymffurfiaeth unwaith y bydd y ddeddfwriaeth wedi'i phasio. Hyrwyddo defnyddio dulliau adnabod ar gyfer pob ceffyl.
Cam Gweithredu 4b: Gweithio gyda'r diwydiant yswiriant ac eraill, annog pobl i ddefnyddio'r dull adnabod corfforol parhaol y cytunwyd arno ar gyfer pob ceffyl.	BHS, BEVA, RSPCA	Nid oes unrhyw ofyniad i ddefnyddio dull adnabod parhaol cyffredinol	Sicrwydd wrth adnabod ceffylau	Hyrwyddo manteision dull adnabod parhaol. Trafod y goblygiadau gyda'r diwydiant yswiriant.
Cam Gweithredu 4c: Hyrwyddo'r broses o gofnodi gwybodaeth am bob ceffyl ar y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol.	BHS, BEF, NED, DEFRA	Cofnodion anghyflawn ar y Gronfa Ddata	Gwybodaeth gynhwysfawr ar y Gronfa Ddata	Gweithio gyda NED i sicrhau y cofnodir pob ceffyl ar y Gronfa Ddata

[page 31]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd

Nod 5: Adolygu meddyginiaethau, anghenion ac argaeledd
Hyrwyddwr: Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain
Amseriad: Cyflwyno adroddiad o fewn dwy flynedd

Cam Gweithredu 5a: Sefydlu gweithgor i nodi anghenion cyfredol ac anghenion tebygol yn y dyfodol o ran cyflenwi meddyginiaethau ac argymell sut orau i'w diwallu.	BEVA, NOAH, Defra AHW, VMD (fel sylwedydd)	Ar hyn o bryd nid yw'r diwydiant yn ganolog yn arddel unrhyw safbwynt ar y mater hwn ac nid oes unrhyw gydlynu.	Adroddiad ac argymhellion o fewn dwy flynedd.	Sefydlir Gweithgor a nodir cylch gorchwyl. Gwybodaeth wedi'i chasglu. Adolygiad ac adroddiad.

[page 32]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd

NOD 6: Adolygu addysg, sgiliau a hyfforddiant

Hyrwyddwr: LANTRA

Amseriad: O fewn tair blynedd.

Cam Gweithredu 6a: Archwilio lefelau addysg a sgiliau a darpariaeth hyfforddiant, a nodi bylchau sylweddol.	Lantra, BHS, BHEST, BEVA, FTA.	Lluniwyd Cam 5 Cytundeb a Chynllun Gweithredu Sgiliau Sector ac fe'i cysylltwyd â Chynllun Gweithredu BHIC o ganlyniad i ymgynghori â'r diwydiant. Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gael i'r Diwydiant Ceffylau. Mae Pasportau Sgiliau ar gyfer ostleriaid Ceffylau Cystadlu yn cael eu	Datblygu'r Pasportau Sgiliau ar gyfer y diwydiant ceffylau cyfan. Adolygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a chymwysterau ceffylau i fodloni gofynion deddfwriaeth lles newydd. Systemau cyflawni effeithiol ar waith i sicrhau ymwybyddiaeth o safonau a darparu mynediad i ddarpariaeth hyfforddiant	Datblygu'r Fframwaith Cymwyseddau Galwedigaethol a Sgiliau Pasportau ymhellach. Ymgorffori unedau lles anifeiliaid yn y Diploma Amgylcheddol a Gweithio ar y Tir. Bydd cyflogwyr ac asiantaethau yn lobïo am adnoddau arian digonol trwy'r Cytundeb Sgiliau Sector.

		datblygu ar y cyd â'r Fframwaith Cymwyseddau Galwedigaethol er mwyn gallu cydnabod sgiliau a chymwyseddau'r rhai sy'n ymuno â'r diwydiant ceffylau, a gyflogir ynddo neu sy'n gwirfoddoli ynddo. Mae darpariaeth a chymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd wrthi'n cael eu harchwilio trwy brosesau'r Cytundeb Sgiliau Sector. Lobïo asiantaethau ariannu i sicrhau bod yr arian a ddarperir yn diwallu anghenion cyflogwyr.	ac addysg i bawb y mae ei angen arnynt. Ffrydiau ariannu ar gael i hyrwyddo proses effeithiol ar gyfer ymgorffori hyfforddiant mewn lles ceffylau.	

[page 33]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd
		Hyrwyddir gwahanol godau, canllawiau ac ati gan eu perchenogion mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae gan lawer o elusennau raglenni addysgol ond at ei gilydd nid ydynt yn gydgysylltiedig.		

		Mae'r RSPCA yn cynllunio ymgyrch i hysbysu perchenogion anifeiliaid o'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae ILPH yn cynnal cyfres o seminarau ar gyfer "perchenogion newydd". Profion ac arholiadau cam BHS a Chlwb y Merlod.		
Cam Gweithredu 6b: Llunio a chyflwyno cynllun ag adnoddau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sylweddol a nodwyd yng Ngham Gweithredu 6a.	Lantra, BHS, BHEST, BEVA, FTA	Nid yw'r darlun llawn ar gael.	Mae perchenogion a cheidwaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae perchenogion a cheidwaid yn cydnabod y cyfrifoldebau hynny ac yn eu cyflawni, ac mae ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i wneud hynny.	Llunnir cynllun ag adnoddau priodol.

[page 34]

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd

NOD 7: Adolygu gofynion ymchwil
Hyrwyddwr: Yr Ymddiriedolaeth Ceffylau
Amseriad: O fewn 2 flynedd, ar yr amod y bydd casgliadau camau gweithredu perthnasol yn Nod 2 ar gael.

Cam Gweithredu 7a:	Yr Ymddiriedolaeth	Llif rheolaidd, da o arian	Cadarnhau'r sefyllfa	Casglu a dadansoddi

Adolygu'r trefniadau ar gyfer ymchwil filfeddygol; nodi cyfleoedd i gynyddu cyllid ar gyfer ymchwil, gwella ansawdd ymchwil a sicrhau mwy o gynnydd, gwella'r modd y dyrennir, y dosberthir ac y defnyddir arian, a sicrhau y rhoddir gwybod i bobl am ganlyniadau ac y gweithredir arnynt yn well.	Ceffylau; HBLB; ILPH; Ymddiriedolaeth Elusennol PetPlan; BEVA; BEF; BHS; sefydliadau academaidd ac ymchwil perthnasol.	gan nifer fach o gyrff ariannu. Gall fod lle i gynyddu'r arian sydd ar gael. Sail ymchwil genedlaethol dda. Cyfathrebu da gyda phartïon â buddiant a rhyngddynt mewn rhai achosion. Gall fod lle i wella cyfathrebu. Cyfleoedd cyffrous i hyrwyddo ymchwil i geffylau.	gyfredol (ffynonellau arian, dyrannu a defnyddio arian, canlyniadau, rhoi gwybod am ganlyniadau). Ymchwilio i gyfleoedd yn y dyfodol a ffyrdd o fanteisio arnynt. Nodi gwelliannau o ran trefniadau ariannu a threfniadau cysylltiedig.	gwybodaeth. Trafod gyda phartïon â buddiant; gwerthuso a chasgliadau. Gwaith dilynol ar argymhellion fel y bo'n briodol.

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Sefyllfa Gyfredol	Canlyniad Dymunol	Camau sy'n Cael eu Cymryd

NOD 8: Adolygu cyflawniad a datblygu pellach
Hyrwyddwr: Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain
Amseriad: Gwaith goruchwylio a monitro parhaus, cyhoeddir adroddiadau cynnydd yn flynyddol.

Cam Gweithredu 8a: Sicrhau y gweithredir y Strategaeth, monitro ei heffeithiolrwydd, ac adolygu ei chynnwys i benderfynu a oes angen newidiadau ac os felly pa fath o newidiadau sydd eu hangen.	BHIC/Hyrwyddwyr	Ni chynhelir unrhyw adolygiad strategol canolog o iechyd a lles yn y sector ceffylau ym Mhrydain.	Gweithredu'r Strategaeth yn llwyddiannus ac yn effeithiol. Paratoi'r tir ar gyfer gwella parhaol.	Sefydlu Grŵp Llywio. Sefydlu a gweithredu dull o gasglu'r wybodaeth y mae ei hangen ar y Grŵp. Gwerthuso a chyflwyno adroddiadau, gan gynnwys nodi is-

				strategaethau/camau gweithredu. Lledaenu Adroddiadau. Cymryd camau eraill yn ôl yr angen i wneud gwaith dilynol ar Adroddiadau a sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen.

ATODIAD B: MENTRAU CYSYLLTIEDIG

Strategaeth ar gyfer y Diwydiant Ceffylau yng Nghymru a Lloegr[4]

B1 Bwriedir i'r strategaeth hon feithrin diwydiant ceffylau cadarn a chynaliadwy, cynyddu ei werth economaidd a datblygu'r cyfraniad y mae'n ei wneud at fywyd y genedl. Mae'n cydnabod bod safonau iechyd a lles ceffylau uchel o'r pwys pennaf i dwf y diwydiant a'u bod yn hanfodol bwysig i bob un o'i nodau strategol. Y nodau hyn yw:

- Dod â'r diwydiant ceffylau at ei gilydd a datblygu ei effaith genedlaethol, ranbarthol a lleol. Cynyddu cyfranogiad mewn marchogyddiaeth a datblygu cyfraniad cymdeithasol y diwydiant ceffylau.
- Hybu perfformiad economaidd busnesau ceffylau.
- Gwella sgiliau, hyfforddiant a safonau ym maes ceffylau.
- Cynyddu mynediad i weithgareddau marchogaeth oddi ar y ffordd a gyrru cerbydau.
- Ystyried effaith amgylcheddol y ceffyl.
- Hyrwyddo rhagoriaeth ym myd chwaraeon.
- Gwella ansawdd ceffylau a merlod a safonau bridio.

B2 Ategir y Strategaeth gan Gynllun Gweithredu[5]. Y cam gweithredu cyntaf yw "sicrhau a chynnal safon ddigon uchel o les anifeiliaid yn y diwydiant ceffylau drwyddo draw, trwy weithredu'r Strategaeth Iechyd a Lles yn llwyddiannus… a thrwy gymorth gan y diwydiant i sefydliadau lles ceffylau dynodedig." Bydd llawer o'r camau gweithredu eraill yn y Strategaeth o fudd i iechyd a lles ceffylau yng Nghymru a Lloegr. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Gwella'r modd y rheolir tir pori;
- Ystyried codau ymarfer ar gyfer rheoli tir yn dda a phori er lles cadwraeth;
- Ymgyrchu i addysgu marchogion a modurwyr am ddiogelwch ar y ffordd ac oddi ar y ffordd;
- Sefydlu cyrff arweiniol i gynorthwyo i wella ansawdd ceffylau a merlod;
- Manteisio ar y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol i wella bridio;
- Hyrwyddo bridiau brodorol a chynhenid;
- Gwella safonau perfformiad busnes; a
- Hyrwyddo lefelau sgiliau uwch o fewn y diwydiant.

Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid Prydain Fawr[6]

B3 Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r hyn y mae'r Llywodraeth am ei gyflawni yn ystod y degawd nesaf o ran croesrywogaethau iechyd a lles anifeiliaid cenedlaethol. Mae'n cydnabod bod angen cynnwys grwpiau rhywogaethau unigol yn y gwaith o'i chyflawni. Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles Ceffylau'n ategu'r gwaith o'i gweithredu.

[4] Paratowyd gan Gydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.
Mae ar gael i'w lwytho i lawr yn www.defra.gov.uk/rural/horses/pdfs/en-horse-industry-strategy.pdf
[5] Ar gael ar wefan BHIC yn *www.bhic.co.uk.*
[6] Paratowyd gan Defra, Gweithrediaeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2004.
Mae ar gael i'w lwytho i lawr yn www.defra.gov.uk/animalh/ahws/strategy/ahws.pdf

Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006[7]

B4 Mae'r Deddfau hyn yn atgyfnerthu ac yn moderneiddio deddfwriaeth lles anifeiliaid. Maent yn cyflwyno 'dyletswydd gofal' statudol. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i berchenogion a cheidwaid gymryd pob cam rhesymol i sicrhau lles yr anifeiliaid dan eu gofal, i'r graddau a fynnir gan arfer da. Maent yn galluogi i gamau ataliol gael eu cymryd cyn yr achosir dioddefaint i anifeiliaid, ac yn atgyfnerthu cosbau a mesurau gorfodi er mwyn atal troseddwyr parhaus. Maent yn cyflwyno pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth a chodau ymarfer statudol i hyrwyddo lles anifeiliaid nad ydynt yn cael eu ffermio. Mae mesurau sydd wrthi'n cael eu llunio ac sy'n berthnasol i'r Strategaeth hon yn ymdrin â:

- thrwyddedu ac archwilio iardiau hurio, gan gynnwys nodi'n gliriach gyfrifoldebau perchennog yr iard a pherchennog y ceffyl;
- trwyddedu ysgolion ceffylau;
- cod ymarfer ar gadw ceffylau ar denyn;
- cofrestru noddfeydd anifeiliaid, gan gynnwys trefniadau adsefydlu ac ailgartrefu; ac
- anifeiliaid sy'n perfformio – cymeradwyo hyfforddwyr ac archwiliadau.

Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar Ddiogelu Anifeiliaid pan fyddant yn cael eu Cludo a Gweithrediadau Cysylltiedig[8]

B5 Mae'r Rheoliad hwn yn disodli deddfwriaeth yr UE sy'n bodoli eisoes ar gludo anifeiliaid. Mae'n gwella safonau lles ar gyfer teithiau hir ac yn tynhau trefniadau gorfodi. Mae'n cynnwys rhai gofynion sy'n ymwneud â cheffylau yn unig. Erbyn 2011 dylai'r Comisiwn Ewropeaidd gyflwyno adroddiad ar ei effaith, ac efallai y daw cynigion pellach yn ei sgil.

Cronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol (NED) [8]

B6 Mae NED yn darparu am y tro cyntaf ddull o gasglu at ei gilydd wybodaeth am y mwyafrif o geffylau ledled Prydain. Fe'i cynlluniwyd i ddal data pasportau ceffylau yn ogystal â gwybodaeth am fridio, cystadlaethau a pherfformiad. Mae NED eisoes yn cael ei defnyddio i ategu ymdrechion i reoli achosion o glefydau a llywio gwaith goruchwylio parhaus. Dros amser, bydd NED yn helpu i nodi stoc fridio dda a gwael, gan leihau nifer yr anifeiliaid anaddas sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ar ben hynny mae ganddi'r potensial i atal achosion o gam-werthu

ceffylau a fridiwyd ym Mhrydain yn gyfan gwbl, er enghraifft honni bod ceffylau yn iau nag ydynt mewn gwirionedd. Bydd hyn, ynghyd â data perfformiad a data bridio, yn helpu i sicrhau bod ceffylau a brynir yn addas i'r diben. Ar ben hynny, gellid defnyddio NED i nodi pob ceffyl sy'n eiddo i bobl neu a gedwir gan bobl sy'n destun ymchwiliad neu sy'n cael eu herlyn am esgeulustod neu gamdriniaeth. Gellid ei defnyddio hefyd i wirio a ddaeth unrhyw un a waharddwyd rhag bod yn berchen ar geffylau neu rhag cadw ceffylau yn berchennog cofrestredig yn ystod cyfnod y gwaharddiad. Bydd hefyd yn darparu cyfleuster i berchenogion ceffylau gofnodi rhifau microsglodion a data adnabod arall, a allai, ynghyd â gwybodaeth eraill am berchenogion, ddarparu adnodd pwerus ar gyfer olrhain perchenogion ceffylau a gollwyd neu a ladratwyd.

[7] Deddf Lles Anifeiliaid 2006 www.opsi.gov.uk/acts/acts 2006/20060045.htm Deddf Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006 www.opsi.gov.uk/legislation/scotland/acts2006/20060011.htm
[8] Ar gael i'w lwytho i lawr yn http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_003/l_00320050105en00010044.pdf
[9] Gweler www.defra.gov.uk/animalh/tracing/horses/ned.htm .

ATODIAD C: YMGYNGHOREION

Abingdon and Witney College
Ada Cole Rescue Stables
Advantage West Midlands
Agricultural Development Advisory Service
Amateur Jockeys Association of GB
American Miniature Horse Club GB
American Quarter Horse Association of the UK
American Saddlebred Association of Great Britain
Anglo-European Studbook Ltd
Animal Health Trust
Appaloosa Horse Club UK Ltd
Arab Horse Society
Askham Bryan College
Association of British Insurers
Association of Show and Agricultural Organisations
Berkshire College of Agriculture
Bishop Burton College
Blue Cross
Box Systems
Brackenhurst School of Land-based Studies
Bransby Home of Rest for Horses
British Appaloosa Society
British Association for the Purebred Spanish Horse Ltd
British Bavarian Warmblood Association
British Breeding
British Connemara Pony Society
British Dressage
British Driving Society
British Equestrian Federation
British Equestrian Insurance Brokers
British Equestrian Trade Association

British Equestrian Vaulting
British Equine Veterinary Association
British Eventing
British Fallabella Studbook
British Hanoverian Horse Society
British Harness Racing Club
British Horse Driving Trials Association
British Horse Foundation/Database
British Horse Industry Confederation
British Horse Loggers
British Horse Society
British Horseball Association
British Horseracing Board
British Miniature Horse Society
British Morgan Horse Society
British Mule Society
British Palomino Society
British Percheron Horse Society
British Racing School
British Reining Horse Association
British Show Hack, Cob and Riding Horse Association
British Show Jumping Association
British Show Pony Society
British Skewbald & Piebald Association
British Spotted Pony Society
British Warmblood Society and British Sports Horse Registry
Brooke Hospital for Animals
Brooksby Melton College
Byways and Bridleways Trust
Cannington College
Capel Manor College
Caspian Breed Society
Caspian Horse Society
Chichester College
Cleveland Bay Horse Society
Clydesdale Horse Society
College Farm Equestrian Centre
College of West Anglia
Coloured Horse and Pony Society UK
Commoning Animals Protection Society
Council for National Parks
Country Land and Business Association
Countryside Agency
Countryside Alliance
Courses for Horses
Dales Pony Society
Dartmoor Livestock Protection Society
Dartmoor Pony Society
Department for Culture Media and Sport
Department for Transport, Road Safety Division 3
Derby College
Devon Horse & Pony Sanctuary
Disability Sport England
Doncaster Bloodstock Sales
Donkey Breed Society

Donkey Sanctuary
Duchy College
East Durham and Houghall Community College
East Midlands Development Agency
East of England Development Agency
Easton College
Effem Equine Ltd
Endurance GB
Equestrian Support Services
Equine Grass Sickness Fund
Eriskay Pony Society
Essex Horse & Pony Protection Society
European Federation of Thoroughbred Breeders Associations
Exmoor Ponies In Conservation
Exmoor Pony Society
Farm Animal Genetic Resources
Farmkey
Farriery Training Service
Federation of Bloodstock Agents
Federation of Small Businesses
Fell Pony Society
Fjord Horse National Stud Book Association of GB
Fjord Horse Registry of Scotland and Fjord Horse UK
Forestry Commission
Fortune Centre for Riding Therapy
Friesian Horse Association of Great Britain and Ireland
GO Network and GOSE
Greatwood Caring for Retired Racehorses
Gypsy Cob Society
Hackney Horse Society
Hadlow College
Haflinger Society of Great Britain
Hartpury College
Highland Pony Society
HM Customs and Excise
Holme Lacey College
The Horse Trust
Home Office
Horse Passport Agency Ltd
Horse Passports Ltd
Horse Pasture Management Project
Horse Rescue Fund
Horse World
Horserace Betting Levy Board
Horseracing Regulatory Authority
Horseracing Sponsors Association
Horses & Ponies Protection Association
Horses and Courses LTD
Humane Slaughter Association
Hurlingham Polo Association
Icelandic Horse Society of GB
Imperial College London
Industry Committee (Horseracing) Ltd.
International League for the Protection of Horses
International Miniature Horse and Pony Society

Irish Draught Horse Society
Isle of Wight Donkey Sanctuary
Jenny Pitman Racing
Jockeys Association of GB
KBIS Horse Insurance
Kingston Maurward College
LANTRA Sector Skills Council
Lincoln College
Lipizzaner National Studbook Association of GB
Lipizzaner Society of GB
Lluest Horse & Pony Trust
Local Government Association
London Development Agency
Lusitano Breed Society GB
Master of Fox Hounds Association
Merrist Wood Campus
Mill House Animal Sanctuary
Miniature Mediterranean Donkey Association of UK
Moorcroft Racehorse Welfare Centre
Moulton College
Mounted Games Association
Myerscough College
National Association of Bridleways
National Association of Farriers, Blacksmiths & Agricultural Engineers
National Association of Local Councils
National Equine Defence Society
National Equine Forum
National Equine Welfare Council
National Farmers Union
National Office of Animal Health
National Pony Society
National Tourist Agencies
National Trainers Federation
Natural Horse Group
New Forest Pony Breeding Society
Newham Riding School and Association
Northern Counties Horse Protection Society
Northumberland College
Northwest Development Agency
Oaklands College
Office of the Deputy Prime Minister
One NorthEast
Open College of Equine Studies
Otley College
Oxford Brookes University
Permanent Show Organisers Association
Permit Trainers Association
Pet-ID UK Ltd
Petplan Equine
Pleasure Horse Society
Plumpton College
Point to Point Owners and Riders Association
Point to Point Secretaries Association
Ponies Association UK
Pony Club

Queen Ethelburgas College
Racecourse Association
Racehorse Owners Association
Racehorse Transporters Association
Racing Economics
Rare Breeds Survival Trust
Reaseheath College
Redwings Horse Sanctuary
Retraining of Racehorses
Riding for the Disabled Association
Rodbaston College
Rother Valley College
Royal College of Veterinary Surgeons
Royal Society for the Protection of Animals
Scottish Executive Environment & Rural Affairs Department
Scottish Society for the Prevention of Cruelty to Animals
Selle Francais
Shetland Pony Stud Book Society
Shire Horse Society
Shuttleworth College
Small Business Service
Society for the Protection of Animals Abroad
Society for the Welfare of Horses and Ponies (North)
Society of Master Saddlers
South East England Development Agency
South Essex Insurance Brokers
South Hants Horse & Pony Protection Society
South West Equine Protection
South West of England Regional Development Agency
Sparsholt College Hampshire
Sport Coach UK
Sport England
Sport Horse Breeding of Great Britain
Sport Pony Studbook Society
Spotted Horse and Pony Society
Spotted Pony Breed Society GB
St Helens College
Stable Lads Association
Standard and Trotting Horse Assoc of GB and Ireland
Stonar School
Suffolk Horse Society
Tattersalls Ltd
Thanet College
The Institute for Horticultural and Rural Studies
The National Stud
Thoroughbred Breeders' Association
Thoroughbred Rehabilitation Centre
Tourism South East
Trailblazers
Transport and General Workers Union
Trakehner Breeders Fraternity
UK Horseshoers Union
UK Polocross Association
UK Sport

UK Trade and Investment
Unicorn Trails
United Saddlebred Association UK Ltd
University of Bristol
University of Central Lancashire
University of Lincoln
Veteran Horse Society
Veterinary Medicines Directorate
Visit Britain
Walford & North Shropshire
Weatherbys ID Passports
Welsh Pony and Cob Society
Wiltshire College, Lackham
Worshipful Company of Farriers
Worshipful Company of Loriners
Worshipful Company of Saddlers
Yale College
Zippo's Circus

Ymgynghorwyd â thua 140 o unigolion hefyd.

Nodiadau